Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.llyw.cymru

# Canllaw i Gynllun Pensiwn Diffoddwyr Tân Cymru 2015




Dyddiad cyhoeddi: **Hydref 2015**

Gweithio mewn partneriaeth gyda'r Gymdeithas Llywodraeth Leol

© Hawlfraint y Goron 2015 WG26279 ISBN digidol 978 1 4734 4527 7

**CYNLLUN PENSIWN DIFFODDWYR TÂN CYMRU 2015**

Mae'r llyfryn hwn yn arweiniad byr i Gynllun Pensiwn Diffoddwyr Tân Cymru 2015 ("CPDTC 2015").

Os ydych, neu os deuwch, yn aelod o CPDTC 2015, mae'r buddion a ddarperir gan y Cynllun yn cynnwys–

- pensiwn a ddiogelir rhag chwyddiant a gyfrifir ar sail cyfran o'ch tâl am bob blwyddyn o aelodaeth.
- opsiwn i drosi rhan o'r pensiwn yn gyfandaliad
- taliad o bensiwn cyn yr oedran ymddeol arferol
  - os bydd rhaid ichi ymddeol ar sail afiechyd parhaol,
  - os dewiswch ymddeol yn gynnar neu ymddeol yn rhannol
  - os rhoddir ichi ymddeoliad cynnar a ysgogir gan gyflogwr.
- diogelwch marwolaeth mewn swydd sy'n darparu cyfandaliad o fudd marwolaeth o dair gwaith eich tâl pensiynadwy terfynol
- pensiwn ar gyfer eich priod, neu'ch partner sifil neu bartner cymwys sy'n cyd-fyw sy'n goroesi
- pensiynau ar gyfer plant cymwys.

CPDTC 2015 yw'r cynllun pensiwn galwedigaethol sydd ar gael i ddiffoddwyr tân gweithredol a benodir gyntaf ar neu ar ôl 1 Ebrill 2015.

Mae'n bosibl bod gan ddiffoddwyr tân a oedd yn gwasanaethu cyn y dyddiad hwnnw hawliau pensiwn eisoes mewn Cynllun Pensiwn Diffoddwyr Tân cynharach, sef

- Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân 1992 ("CPDT 1992"), neu
- Cynllun Pensiwn Newydd y Diffoddwyr Tân 2007 ("CPNDT 2007").

Bydd rhai o'r diffoddwyr tân hyn wedi eu trosglwyddo yn orfodol i CPDTC 2015 o 1 Ebrill 2015. Bydd eraill wedi trosglwyddo ar ddyddiad diweddarach, a bydd hawl gan rai i barhau'n aelod o'u cynllun cynharach hyd nes byddant yn ymddeol.

Mae nodiadau ar gael ar wahân, sy'n esbonio pwy fydd yn trosglwyddo, ar ba ddyddiad, a'r modd y caiff hawliau pensiwn yn y Cynllun blaenorol eu diogelu.

Mae canllawiau Cynllun ar gael hefyd sy'n esbonio CPDT 1992 ac CPNDT 2007.

Fel diffoddwr tân, cewch eich diogelu hefyd gan Gynllun Digolledu'r Diffoddwyr Tân (Cymru) a fyddai'n talu buddion i chi a/neu i'ch dibynyddion pe baech yn mynd yn anabl

neu pe baech farw o ganlyniad i  unrhyw niwed wrth arfer eich dyletswyddau fel diffoddwr tân. Mae rheolau'r Cynllun Digolledu hefyd i'w cael mewn nodiadau ar wahân.

Gallwch gael yr holl ganllawiau a nodiadau hyn gan eich awdurdod tân ac achub. Mae'r manylion cyswllt ar gael yn "Sut i gael rhagor o wybodaeth" ar dudalen 48.

**Canllaw i Gynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) 2015**

Mae'r canllaw hyn yn adlewyrchu rheolau Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) 2015 a gynhwysir yn Rheoliadau Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) 2015, fel y maent yn gymwys ar ddyddiad cyhoeddi'r canllaw hwn. Ni chaiff dim a ddatgenir yn y canllaw hwn fod yn drech na deddfwriaeth pensiynau. Os digwydd unrhyw anghydfod neu anghytundeb, penderfynir y mater gan defnyddio'r rheolau a'r rheoliadau sy'n llywodraethu'r Cynllun.

**Cynnwys**

CEFNDIR .... 5
PWY GAIFF YMUNO? .... 7
OPTIO ALLAN .... 7
OPTIO I MEWN AC AILGOFRESTRU AWTOMATIG .... 9
BETH AM FY HAWLIAU PENSIWN BLAENOROL? .... 9
FAINT FYDDAF YN EI DALU MEWN CYFRANIADAU PENSIWN? .... 11
CYFRANIADAU YN YSTOD CYFNOD O ABSENOLDEB .... 13
A ALLAF GAEL AD-DALIAD O GYFRANIADAU? .... 14
TALIADAU AM BENSIWN YCHWANEGOL .... 14
BETH YW TÂL PENSIYNADWY A THÂL PENSIYNADWY TYBIEDIG? .... 15
SUT GAIFF FY MHENSIWN EI ASESU? .... 17
PA BRYD GAF I YMDDEOL AR BENSIWN? .... 19
YMDDEOL O WASANAETH ACTIF .... 19
BUDDION AFIECHYD .... 20
CYMUDO .... 22
BETH OS DEWISAF ADAEL Y GWASANAETH CYN YMDDEOL? .... 24
DYRANNU .... 26
BUDDION MARWOLAETH .... 26
PENSIYNAU AR GYFER PARTNERIAID SY’N GOROESI .... 27
PENSIYNAU AR GYFER PLANT CYMWYS .... 29
TROSGLWYDDO HAWLIAU PENSIWN ALLAN O’R CYNLLUN .... 30
YSGARU NEU DDIDDYMU PARTNERIAETH SIFIL: .... 31
YR EFFAITH AR HAWLIAU PENSIWN .... 31
CYNYDDU PENSIYNAU .... 32
TALU BUDDION .... 32
EFFAITH RHEOLAU TRETH .... 34
LLEIHAU PENSIWN NEU DYNNU PENSIWN YN ÔL .... 35
CYMORTH I AELODAU, A HAWLIAU APELIO .... 36
Y GYDBERTHYNAS Â CHYNLLUN PENSIWN Y WLADWRIAETH .... 39
ESBONIAD O’R TERMAU AC YMADRODDION .... 40
CRYNODEB O DDARPARIAETHAU CPDT 2015 .... 44
SUT I GAEL RHAGOR O WYBODAETH .... 48

## CEFNDIR

Mae'r canllaw hwn yn esbonio darpariaethau Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) 2015 ("CPDTC 2015") fel y'i pennir yn Rheoliadau Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) 2015 a ddaeth i rym ar 1 Ebrill 2015. Hwn yw'r cynllun pensiwn galwedigaethol ar gyfer diffoddwyr tân gweithredol a benodir gyntaf gan Awdurdod Tân ac Achub (ATA) yng Nghymru ar neu ar ôl y dyddiad hwnnw, neu a drosglwyddir iddo o Gynllun Pensiwn Diffoddwyr Tân cynharach.

Mae dau Gynllun blaenorol, sef Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân 1992 ("CPDT 1992") a Chynllun Pensiwn Newydd y Diffoddwyr Tân 2007 ("CPNDT 2007"), yn parhau mewn grym ar gyfer diffoddwyr tân a oedd yn gwasanaethu cyn y dyddiad hwnnw ac sy'n gymwys i barhau'n aelodau o'u Cynllun cynharach.

Mae'r cynlluniau hyn yn parhau mewn grym hefyd ar gyfer hawliau pensiwn blaenorol "aelodau trosiannol", sef y rhai a drosglwyddwyd yn orfodol o Gynllun blaenorol i CPDTC 2015; mae'r pensiwn yr oeddent eisoes wedi ei grynhoi ar adeg y trosglwyddiad wedi ei ddiogelu a bydd yn parhau ar gael i'w dalu mewn modd sy'n adlewyrchu rhai o delerau Cynllun blaenorol yr aelod.

Cynllun pensiwn gwasanaeth cyhoeddus statudol, **cyfartaledd gyrfa**, gyda buddion diffiniedig yw CPDTC 2015, a wnaed o dan Ddeddf Pensiynau'r Gwasanaethau Cyhoeddus 2013. Cyfrifir y buddion cynllun cyfartaledd gyrfa ar sail cyfran o'r tâl am bob blwyddyn o aelodaeth.

Yn wahanol i gynlluniau pensiwn galwedigaethol yn y sector preifat, nid oes gan CPDTC 2015 ymddiriedolwyr, nac ychwaith y math o gronfa bensiwn sy'n defnyddio buddsoddiadau i'w gynorthwyo i ddiwallu ei rwymedigaethau. Er hynny, mae pob ATA yn cynnal "Cronfa Bensiwn Diffoddwyr Tân" sy'n—

- derbyn cyfraniadau gan aelodau sy'n ddiffoddwyr tân a chan yr ATA sy'n eu cyflogi,
- yn talu buddion i aelodau ac mewn perthynas ag aelodau, ac
- yn gwneud a derbyn taliadau trosglwyddo i, ac oddi wrth, gynlluniau pensiwn eraill.

Nid oes pŵer gan unrhyw ATA i fuddsoddi'r arian. Os bydd y Gronfa yn brin o arian i ddiwallu ei holl rwymedigaethau pensiwn, bydd Gweinidogion Cymru yn cyflenwi'r diffyg. Os bydd arian dros ben yn y Gronfa, bydd Gweinidogion Cymru yn cymryd y gwarged i ddiwallu diffygion mewn Cronfeydd eraill.

Gall rheolau Nawdd Cymdeithasol ddylanwadu ar y modd y mae cynlluniau pensiwn yn gweithio. Mae CPDTC 2015 ar hyn o bryd wedi "contractio allan" o drefniadau Ail Bensiwn y Wladwriaeth, hynny yw, y trefniadau sy'n darparu elfen o bensiwn ychwanegol ar ben Pensiwn Sylfaenol y Wladwriaeth. Er mwyn teilyngu'r statws o gynllun a gontractiwyd allan, rhaid i pensiwn fodloni rhai gofynion penodedig. Caiff aelodau o gynllun a gontractiwyd allan dalu cyfradd is o gyfraniadau yswiriant gwladol (sef y 'gyfradd gontractio allan').

Mae CPDTC 2015 yn gynllun pensiwn cofrestredig at ddibenion Deddf Cyllid 2004. Golyga hynny fod Cyllid a Thollau EM yn caniatáu consesiynau treth penodol. Mae'r

cyfraniadau pensiwn yn cael rhyddhad dreth; a rhai buddion, o fewn terfynau penodedig, yn esempt o’r dreth.

Rhaid i CPDTC 2015, fel cynlluniau pensiwn eraill, gydymffurfio â’r Deddfau Pensiynau. Mae Rheoliadau "Datgelu Gwybodaeth", a wnaed o dan y Deddfau Pensiynau, yn gwneud yn ofynnol eich bod chi yn cael eitemau o wybodaeth sylfaenol ynglŷn â’r Cynllun. Ysgrifennwyd y llyfryn hwn er mwyn cydymffurfio â’r Rheoliadau hynny.

Mae’n bosibl eich bod yn anghyfarwydd â rhai o’r termau pensiwn a ddefnyddir yma, neu fod ystyr arbennig i’r termau hynny yng nghyd-destun CPDTC 2015. Rhoddir esboniad o’r termau ac ymadroddion ar dudalen 40. I  gael rhagor o wybodaeth am CPDTC 2015, gweler y manylion cyswllt ar dudalen 48.

## PWY GAIFF YMUNO?

Mae aelodaeth o CPDTC 2015 yn agored i unrhyw berson sy’n ymgymryd â chyflogaeth fel diffoddwr tân gydag ATA ar neu ar ôl 1 Ebrill 2015, ar delerau sy’n peri ei bod, neu y gall fod, yn ofynnol i’r person hwnnw gymryd rhan mewn ymladd tân, a bod ei rôl yn cynnwys datrys digwyddiadau gweithredol, neu arwain a chefnogi eraill i ddatrys digwyddiadau o’r fath. Mae cofrestru yn y Cynllun yn digwydd yn awtomatig wrth benodi. Nid yw’n gwneud gwahaniaeth pa system ddyletswydd y contractiwyd chi i weithio oddi tani — gallwch fod yn ddiffoddwr tân rheolaidd amser llawn neu ran-amser, yn ddiffoddwr tân o dan y system wrth gefn neu’n wirfoddolwr. Os cewch eich symud yn ddiweddarach, i rôl ymladd tân nad yw’n cynnwys datrys digwyddiadau gweithredol, cewch barhau’n aelod o’r Cynllun ar yr amod bod gennych barhad gwasanaeth.

Bydd diffoddwyr tân a oedd yn gwasanaethu cyn 1 Ebrill 2015, ac yn aelodau o CPDT 1992 neu CPNDT 2007, wedi eu trosglwyddo yn orfodol i CPDT 2015 ar 1 Ebrill 2015 onid oeddent, ar 1 Ebrill 2012:

(a) yn aelod o CPDT 1992 ac o fewn 10 mlynedd i oedran pensiwn arferol CPDT 1992 (sef 55),

(b) yn aelod o CPNDT 2007 ac o fewn 10 mlynedd i oedran ymddeol arferol CPNDT 2007 (sef 60), neu

(c) yn aelod o CPDT 1992 neu CPNDT 2007 ac yn dod o dan y rheolau "diogelwch taprog".

Caiff y rhai sydd yng nghategorïau (a) and (b) uchod barhau yn aelod o’u Cynllun presennol tan eu hymddeoliad; caiff y rhai yng nghategori (c) barhau yn aelod o’u Cynllun presennol tan y dyddiad y daw eu diogelwch taprog i ben.

Ystyrir y rhai a drosglwyddir yn orfodol o Gynllun blaenorol, boed hynny ar 1 Ebrill 2015 neu ar ddyddiad diweddarach o dan y rheolau diogelwch taprog, yn gymwys i fod yn aelodau o CPDTC 2015 hyd yn oed pan nad ydynt bellach yn bodloni’r gofynion gweithredol a bennir uchod, ar yr amod bod ganddynt barhad gwasanaeth.

Caiff aelodau o CPDT 1992 neu CPNDT 2007 sy’n ddiffoddwyr tân ac yn dewis optio allan o’u Cynllun presennol ymuno ag CPDTC 2015 os ydynt yn bodloni’r gofynion gweithredol a chyfreithiol ar gyfer eu derbyn.

## OPTIO ALLAN

Cewch optio allan o CPDTC 2015 ar unrhyw adeg os nad ydych yn dymuno bod yn aelod. Er mwyn gwneud hynny, rhaid ichi roi hysbysiad ysgrifenedig wedi ei lofnodi i’r ATA. (Os yw’r hysbysiad mewn fformat electronig, dylech gynnwys datganiad yn cadarnhau mai chi, yn bersonol, a’i cyflwynodd.) Ystyrid wedyn eich bod wedi arfer yr opsiwn ar y dyddiad y mae’r ATA yn cael yr hysbysiad.

Os byddwch yn optio allan cyn diwedd 3 mis o gyflogaeth Gynllun ddi-dor, neu o fewn 3 mis ar ôl ailgofrestru yn awtomatig (gweler tudalen 9), byddwch yn cael eich trin fel pe na baech wedi bod mewn cyflogaeth bensiynadwy yn ystod y cyfnod hwnnw, a byddwch yn cael ad-daliad o’r cyfraniadau a dalwyd gennych ar gyfer y cyfnod hwnnw (gweler tudalen 14).

Os byddwch yn optio allan ar ôl cyfnod o 3 mis neu ragor o wasanaeth di-dor mewn cyflogaeth Gynllun, neu 3 mis neu ragor ar ôl ailgofrestru yn awtomatig, byddwch fel arfer yn cael eich trin fel pe baech wedi terfynu eich gwasanaeth pensiynadwy yn y Cynllun ar ddiwrnod cyntaf y cyfnod tâl sy'n dilyn yn union ar ôl y cyfnod yr optiwyd allan ynddo. Byddwch wedyn yn dod yn aelod gohiriedig o'r Cynllun o'r dyddiad hwnnw ymlaen (gweler tudalen 24) a byddwch yn peidio â chael unrhyw ddiogelwch pellach o dan CPDTC 2015, ac eithrio'r hyn a ddarperir i aelod gohiriedig.

Ceisiwch gyngor ariannol annibynnol os ydych yn ystyried optio allan. Byddech yn arbed cost y cyfraniadau, ond hwyrach y byddech yn talu mwy o dreth (mae'r cyfraniadau yn denu rhyddhad treth) a chyfraniadau Yswiriant Gwladol (tra byddwch yn aelod o CPDTC 2015 byddwch yn talu'r gyfradd gontractio allan, sydd yn is -gweler tudalen 39). Byddai eich dibynyddion hefyd yn peidio â chael diogelwch pensiwn. Fodd bynnag, byddai Cynllun Digolledu'r Diffoddwyr Tân yn parhau i'ch diogelu rhag niwed cymwys a allai ddigwydd i chi.

## OPTIO I MEWN AC AILGOFRESTRU AWTOMATIG

Os byddwch yn optio allan o'r Cynllun ond yn newid eich meddwl yn ddiweddarach, bydd modd ichi gyflwyno dewisiad ysgrifenedig wedi ei lofnodi i'r ATA er mwyn ailymuno, ar yr amod y byddwch, y pryd hwnnw, yn bodloni'r amodau aelodaeth.

Yn ogystal, o dan y gofynion "ailgofrestru awtomatig" a gyflwynwyd gan Ddeddf Pensiynau 2008, sy'n effeithio ar bob cyflogwr yn y DU, bydd rhaid i'r ATA, ar adegau rheolaidd, ailgofrestru aelodau sydd wedi optio allan, yn ôl i mewn i gynllun pensiwn. Bydd gennych yr hawl i optio allan drachefn, os dyna fydd eich dewis. Ar yr amod y dewiswch yr opsiwn hwnnw o fewn 3 mis ar ôl dyddiad yr ailgofrestriad awtomatig, bydd hawl gennych i gael ad-daliad o unrhyw gyfraniadau a dalwyd ers y dyddiad hwnnw.

## BETH AM FY HAWLIAU PENSIWN BLAENOROL?

Ar ddechrau eich cyflogaeth, gofynnir ichi roi manylion am aelodaeth o unrhyw gynllun pensiwn blaenorol, a nodi a hoffech i'r ATA ymchwilio i'r posibilrwydd o drosglwyddo hawliau pensiwn i CPDTC 2015. Gall CPDTC 2015 dderbyn trosglwyddiad o gynllun pensiwn galwedigaethol arall sydd wedi ei gofrestru gyda Chyllid a Thollau EM, cynllun pensiwn tramor cydnabyddedig cymwys, neu gynllun pensiwn personol.

Bydd rhai cyfyngiadau a therfynau amser yn bodoli, a fydd yn dibynnu ar y math o gynllun pensiwn y gofynnir am drosglwyddiad ohono – gall yr ATA roi gwybod ichi am y rhain ac esbonio pa wybodaeth arall y bydd ei hangen gennych chi neu gan y cynllun pensiwn arall ynghylch y trosglwyddiad a geisir. Rhaid gwneud cais am drosglwyddiad mewn ysgrifen. Gallai'r ATA roi syniad enghreifftiol ichi o swm y pensiwn y gallai'r trosglwyddiad ei ychwanegu at eich cyfrif pensiwn. Dylech gymharu hwnnw ag unrhyw opsiynau pensiwn eraill a gynigid ichi gan eich cynllun blaenorol, a phenderfynu, o fewn y terfynau amser, a ddylech fynd ymlaen â'r trosglwyddiad ai peidio.

Os buoch yn gweithio yn y gorffennol i ATA y tu allan i Gymru, byddai trosglwyddiad o'ch hawliau pensiwn blaenorol yn cael ei wneud yn unol ag egwyddorion tebyg i'r hyn a amlinellir uchod

Gall ddigwydd, fodd bynnag, y byddwch yn symud o gyflogaeth gydag un ATA Cymreig i gyflogaeth gydag ATA Cymreig arall. Eto, ar ddechrau eich cyflogaeth newydd, dylech ddweud wrth yr awdurdod newydd am yr hawliau pensiwn a ddelir gan yr awdurdod blaenorol (hyd yn oed os bu toriad rhwng y ddwy gyflogaeth). Ar yr amod na fu unrhyw doriad a oedd yn hwy na phum mlynedd, bydd eich awdurdod blaenorol yn darparu tystysgrif ichi, a fydd yn dangos y cofnodion yn eich cyfrif(on) pensiwn a ddelir gan yr awdurdod hwnnw, a bydd eich awdurdod newydd yn trosglwyddo'r manylion i'r cyfrif(on) pensiwn a sefydlir ganddo ar gyfer eich cyflogaeth newydd. Ond ni wneir unrhyw daliad trosglwyddo rhwng y ddau ATA.

Gwneir darpariaethau arbennig os oedd y toriad rhwng cyflogaethau yn hwy na phum mlynedd ac os dymunwch drosglwyddo 'cyfrif pensiwn ychwanegol' fel y'i diffinnir yn yr adran Taliadau am Bensiwn Ychwanegol sy'n cychwyn ar dudalen 14, neu os oes gennych gyfrifon mewn perthynas â mwy nag un gyflogaeth. Mewn amgylchiadau o'r fath, gallwch gael gwybodaeth fanylach gan eich ATA. Os tybiwch fod manylion y cyfrif a drosglwyddwyd yn anghywir oherwydd gwall yn y dystysgrif, dylech drafod y mater

gyda’ch ATA blaenorol. Os na chewch foddhad, bydd gennych hawl i apelio o dan y Gweithdrefnau Datrys Anghydfod Mewnol (gweler "Hawliau apelio" ar dudalen 36).

## FAINT FYDDAF YN EI DALU MEWN CYFRANIADAU PENSIWN?

Fel aelod o CPDTC 2015 byddech yn talu cyfraniad pensiwn sydd yn ganran o'ch tâl pensiynadwy neu o'ch tâl pensiynadwy tybiedig.

Esbonnir "tâl pensiynadwy" a "thâl pensiynadwy tybiedig" o dan Beth yw Tâl Pensiynadwy a Thâl Pensiynadwy Tybiedig? ar dudalen 15.

Fel rheol, byddai'r cyfraniadau yn cael eu didynnu o bob rhandaliad o dâl pensiynadwy fel y deuent yn ddyledus, oni fyddai dull arall o dalu wedi ei gytuno gyda'r ATA

Mae'r cyfraddau cyfraniadau presennol, am y cyfnod 1 Ebrill 2015 i 31 Mawrth 2016 fel a ganlyn:

| **Ystod tâl pensiynadwy ar gyfer cyflogaeth** | **Cyfradd gyfraniadau 1 Ebrill 2015 i 31 Mawrth 2016** |
|---|---|
| Hyd at £27,000 | 10.0% |
| £27,001 i £50,000 | 12.2% |
| £50,001 i £142,500 | 13.5% |
| £142,501 neu fwy | 14.5% |

Y tâl pensiynadwy a ddangosid yng Ngholofn 1, yn achos diffoddwyr tân rheolaidd rhan-amser a diffoddwyr tân wrth gefn a gwirfoddol, fyddai tâl pensiynadwy diffoddwr tân rheolaidd amser llawn sydd â rôl gyfatebol a hyd gwasanaeth cyfwerth. Ni fyddai'n cymryd i ystyriaeth rhai gostyngiadau mewn tâl, e.e. yn ystod absenoldeb salwch, neu absenoldeb gyda chaniatâd.

Penderfynir y gyfradd gyfraniadau berthnasol ar ddechrau'r aelodaeth ac wedyn ar ddechrau pob blwyddyn ariannol ddilynol (sef 1 Ebrill).

Os digwydd, yn ystod blwyddyn ariannol, unrhyw newid yn eich cyflogaeth Gynllun neu newid sylweddol sy'n effeithio ar eich tâl pensiynadwy, i'r fath raddau nes bod swm diwygiedig eich tâl pensiynadwy yn symud i fand cyfraniadau gwahanol, bydd yr awdurdod yn eich hysbysu o'r newid yn y gyfradd gyfraniadau a'r dyddiad y gweithredir y newid.

Mae'r bandiau a'r cyfraniadau canlynol wedi eu pennu ar gyfer y tair blynedd o 1 Ebrill 2016 ymlaen:

| **Ystod tâl pensiynadwy ar gyfer cyflogaeth** | **Cyfradd gyfraniadau 1 Ebrill 2016 i 31 Mawrth 2017** |
|---|---|
| Hyd at £27,270 | 10.0% |
| £27,271 i £50,500 | 12.5% |
| £50,501 i £142,500 | 13.5% |
| £142,501 neu fwy | 14.5% |

| **Ystod tâl pensiynadwy ar gyfer cyflogaeth** | **Cyfradd gyfraniadau 1 Ebrill 2017 i 31 Mawrth 2018** |
|---|---|
| Hyd at £27,543 | 10.5% |
| £27,544 i £51,005 | 12.7% |
| £51,006 i £142,500 | 13.5% |
| £142,501 neu fwy | 14.5% |

| **Ystod tâl pensiynadwy ar gyfer cyflogaeth** | **Cyfradd gyfraniadau o 1 Ebrill 2018 ymlaen** |
|---|---|
| Hyd at £27,818 | 11.0% |
| £27,819 i £51,515 | 12.9% |
| £51,516 i £142,500 | 13.5% |
| £142,501 neu fwy | 14.5% |

Mae’r ATA yn talu cyfraniadau cyflogwyr fel y’u pennir gan Actiwari’r Cynllun a Gweinidogion Cymru, ynghyd ag unrhyw gostau ychwanegol y mae’n rhaid i’r cyflogwr eu diwallu, e.e. ynglŷn ag ymddeol ar sail afiechyd neu ymddeol cynnar a ysgogir gan gyflogwr.

## CYFRANIADAU YN YSTOD CYFNOD O ABSENOLDEB

### Absenoldeb salwch neu anaf

Pe byddech yn absennol o'ch cyflogaeth Gynllun oherwydd salwch neu anaf, ac yn derbyn tâl pensiynadwy a/neu dâl statudol, byddech yn parhau i dalu cyfraniadau yn unol â'ch cyfradd ganran arferol ar y tâl pensiynadwy/statudol y byddech yn ei gael. Fodd bynnag, pe na bai hawl gennych i gael tâl pensiynadwy/statudol yn ystod yr absenoldeb, gallech wneud dewisiad i dalu cyfraniadau yn unol â'ch cyfradd ganran arferol, ar sail y tâl yr oeddech yn ei gael yn union cyn iddo ddod i ben. Caniateir talu naill ai mewn cyfandaliad neu drwy ddidynnu o randaliadau tâl pensiynadwy, fel y cytunir gyda'r awdurdod ac o fewn terfynau amser penodol. (Caiff yr awdurdod wneud yn ofynnol hefyd eich bod yn talu'r cyfraniadau cyflogwr y byddid wedi eu talu oni bai am yr absenoldeb.)

### Absenoldeb cysylltiedig â phlentyn

Yn ystod absenoldeb cysylltiedig â phlentyn byddech yn talu cyfraniadau ar ba bynnag gyfradd tâl pensiynadwy a delid ichi (gan gynnwys tâl statudol). Pe na bai hawl gennych i gael unrhyw dâl pensiynadwy/statudol yn ystod cyfnod o absenoldeb mamolaeth, tadolaeth neu fabwysiadu arferol, byddech yn cael eich trin fel pe baech wedi talu'r cyfraniadau. Pe na bai hawl gennych i gael unrhyw dâl pensiynadwy/statudol yn ystod cyfnod o absenoldeb mamolaeth ychwanegol, absenoldeb mabwysiadu ychwanegol, absenoldeb rhiant neu absenoldeb rhiant a rennir, gallech wneud dewisiad i dalu cyfraniadau ar sail "tâl pensiynadwy tybiedig", sef y tâl pensiynadwy y byddech wedi ei gael oni bai am yr absenoldeb. Caniateir talu naill ai mewn cyfandaliad neu drwy ddidynnu o randaliadau tâl pensiynadwy, fel y cytunir gyda'r awdurdod ac o fewn terfynau amser penodol. (Byddai'r awdurdod yn talu cyfraniadau'r cyflogwr ar y tâl pensiynadwy tybiedig.)

### Absenoldeb di-dâl awdurdodedig

Os byddwch yn absennol am gyfnod o absenoldeb di-dâl awdurdodedig, cewch wneud dewisiad i dalu cyfraniadau yn unol â'ch cyfradd arferol, ar sail y "tâl pensiynadwy tybiedig", sef y tâl pensiynadwy y byddech wedi ei gael oni bai am yr absenoldeb di-dâl. Caniateir talu naill ai mewn cyfandaliad neu drwy ddidynnu o randaliadau tâl pensiynadwy, fel y cytunir gyda'r awdurdod ac o fewn terfynau amser penodol. (Caiff yr awdurdod wneud yn ofynnol hefyd eich bod yn talu'r cyfraniadau cyflogwr y byddid wedi eu talu oni bai am yr absenoldeb.)

### Absenoldeb anghydfod undebol

Os byddwch yn absennol oherwydd anghydfod undebol, cewch wneud dewisiad i dalu cyfraniadau ar sail eich "tâl pensiynadwy tybiedig", sef y tâl pensiynadwy y byddech wedi ei gael oni bai am yr absenoldeb. Caniateir talu naill ai mewn cyfandaliad neu drwy ddidynnu o randaliadau tâl pensiynadwy, fel y cytunir gyda'r awdurdod ac o fewn terfynau amser penodol. (Caiff yr awdurdod wneud yn ofynnol hefyd eich bod yn talu'r cyfraniadau cyflogwr y byddid wedi eu talu oni bai am yr absenoldeb.)

### Absenoldeb gwasanaeth lluoedd wrth gefn

Pe baech ar absenoldeb gwasanaeth lluoedd wrth gefn, byddai'n ofynnol ichi dalu cyfraniadau ar eich "tâl pensiynadwy tybiedig", sef y tâl pensiynadwy y byddech wedi ei

gael oni bai am yr absenoldeb (oni fyddech yn gymwys i gael buddion o dan gynllun pensiwn galwedigaethol arall yn ystod y cyfnod hwnnw). Caniateir i'r cyfraniadau gael eu didynnu o unrhyw daliad a wneir ichi, mewn perthynas â'r un cyfnod, o dan Ran 5 o Ddeddf y Lluoedd Arfog Wrth Gefn ac Atodol (Diogelu Buddiannau Sifil) 1951. Bydd yr awdurdod yn rhoi, i unrhyw aelod sydd ar fin dechrau cyfnod o absenoldeb gwasanaeth lluoedd wrth gefn, ddatganiad sy'n dangos y tâl pensiynadwy tybiedig am y cyfnod o absenoldeb, y gyfradd gyfraniadau sy'n gymwys, manylion unrhyw daliadau sydd i'w gwneud gan yr awdurdod i'r aelod, a'r gyfradd cyfraniadau cyflogwr sy'n gymwys yn ystod y cyfnod hwnnw. (Byddai'r awdurdod yn talu cyfraniadau'r cyflogwr ar y tâl pensiynadwy tybiedig.)

## A ALLAF GAEL AD-DALIAD O GYFRANIADAU?

Ni allwch gael ad-daliad o'r cyfraniadau oni fyddwch wedi optio allan o'r Cynllun o fewn 3 mis ar ôl ymuno neu ar ôl eich ailgofrestru yn awtomatig (gweler "Optio Allan" ar dudalen 7). Byddai'r cyfraniadau a dalwyd gennych yn cael eu dychwelyd drwy'r gyflogres, gydag addasiadau treth ac Yswiriant Gwladol priodol.

## TALIADAU AM BENSIWN YCHWANEGOL

Os byddwch, fel aelod actif o CPDTC 2015, yn dymuno cynyddu eich pensiwn ymddeol a'ch buddion marwolaeth, cewch wneud hynny naill ai ar ffurf taliadau rheolaidd neu gyfandaliad.

Fodd bynnag, cyfyngir ar swm y pensiwn ychwanegol y caniateir ei "brynu" yn y modd hwn:

- ar gyfer y flwyddyn gynllun 1 Ebrill 2015 i 31 Mawrth 2016 y terfyn cyffredinol yw £6,500.

- ar gyfer unrhyw flwyddyn gynllun a fydd yn cychwyn ar neu ar ôl 1 Ebrill 2016 y terfyn cyffredinol fydd yr hyn a ddyfernir ar gyfer y Cynllun gan Drysorlys EM ac a gyhoeddir cyn dechrau'r flwyddyn gynllun. Fodd bynnag, os na fydd Trysorlys EM wedi gwneud dyfarniad o'r fath, y terfyn fydd y ffigur ar gyfer y flwyddyn gynllun flaenorol, wedi ei gynyddu yn unol â'r Deddfau a Gorchmynion Pensiynau (Cynnydd). Gallwch gael cyngor pellach ynglŷn â'r terfyn cyfredol gan eich gweinyddwr pensiynau.

Os byddwch yn dymuno manteisio ar yr opsiwn hwn, dylech hysbysu'r awdurdod mewn ysgrifen (mae'n bosibl y bydd gan yr awdurdod ffurflen benodol at y diben hwnnw). Dylai'r manylion sylfaenol a roddir yn eich hysbysiad ddatgan:

- a yw'r taliadau ychwanegol i'w gwneud yn gyfnodol ynteu drwy gyfandaliad

- a oes gennych gyfrif pensiwn ychwanegol eisoes gyda chyflogwr arall

- a ydych yn gwneud dewisiad pensiwn ychwanegol mewn cysylltiad â chyflogaeth Gynllun arall.

Os byddwch yn dymuno gwneud taliadau cyfnodol bydd gofyn ichi nodi hefyd:

- dros ba gyfnod y dymunwch wneud y taliadau (gan nodi'r dyddiad terfynol),

- y swm sydd i'w ddidynnu o'ch tâl pensiynadwy ym mhob cyfnod tâl, sef naill ai canran o'r tâl neu swm penodedig (caiff yr awdurdod bennu isafswm).

Bydd cyfnod y taliadau cyfnodol yn dechrau gyda'r cyfnod tâl priodol cyntaf ar ôl y diwrnod y caiff yr awdurdod yr hysbysiad o'ch dewisiad. Bydd y cyfnod yn dod i ben ar y dyddiad a nodwch yn eich dewisiad, neu'n gynharach os peidiwch â bod yn aelod actif neu os yw'n ymddangos i'r awdurdod yr eir dros ben y terfyn cyffredinol o bensiwn ychwanegol.

Os didynnir taliadau cyfnodol o'ch tâl ac os digwydd i'ch tâl pensiynadwy leihau neu ddod i ben a/neu os trinnir chi fel pe baech yn cael tâl pensiynadwy tybiedig, bydd gennych y dewis naill ai o atal y taliadau neu barhau i wneud y taliadau fel pe baech yn cael tâl pensiynadwy yn unol â'r gyfradd lawn. Os yw'r rheswm am y lleihad yn gysylltiedig â phlentyn, bydd gennych yr opsiwn ychwanegol o amrywio swm y taliad ychwanegol yn unol â'r tâl gwirioneddol y byddwch yn ei gael yn ystod y cyfnod hwnnw. Ar ddiwedd cyfnod o dâl gostyngedig, gallwch ofyn i'r awdurdod gasglu o'ch tâl unrhyw "dandaliad" o daliadau cyfnodol. Gallwch gael manylion llawn a gwybodaeth am y terfynau amser gan yr awdurdod.

Os byddwch yn dewis gwneud un cyfandaliad am bensiwn ychwanegol yn hytrach na thaliadau cyfnodol, bydd rhaid i'ch dewisiad nodi'r swm y dymunwch ei dalu. Ni chaiff y swm fod yn llai nag unrhyw isafswm a bennir gan yr awdurdod. Bydd rhaid talu'r cyfandaliad o fewn 3 mis ar ôl dyddiad yr hysbysiad o ddewisiad.

Os dewiswch wneud y taliadau hyn, bydd "**cyfrif pensiwn ychwanegol**" yn cael ei sefydlu ar eich cyfer chi (yn ychwanegol at eich cyfrif aelod actif). Bydd swm o bensiwn ychwanegol, a ddyfernir gan yr awdurdod yn unol â chyfarwyddyd actiwari'r Cynllun, yn cael ei gredydu i'r cyfrif hwnnw am bob blwyddyn gynllun y gwneir y taliadau ychwanegol ynddi. Fel yn achos cyfrif aelod actif, bydd y pensiwn ychwanegol yn cael ei "fynegeio" bob blwyddyn er mwyn cadw i fyny â chwyddiant.

## BETH YW TÂL PENSIYNADWY A THÂL PENSIYNADWY TYBIEDIG?

Mae cyfraniadau, pensiynau a rhai buddion penodol eraill yn seiliedig ar "dâl pensiynadwy" a "thâl pensiynadwy tybiedig"

Trinnir yr eitemau canlynol fel tâl pensiynadwy:

- Tâl a gewch am gyflawni dyletswyddau eich rôl, ac eithrio unrhyw lwfansau neu enillion a delir ar sail dros dro;

- eich enillion parhaol (gan gynnwys, yn achos diffoddwr tân wrth gefn, unrhyw lwfans cadw);

- y swm a hepgorwyd os ydych wedi cytuno i ildio'r hawl i gael rhan o'ch tâl pensiynadwy yn gyfnewid am fudd anariannol (cyfeirir at hyn weithiau fel "aberthu cyflog");

- y swm a dalwyd am ddatblygiad proffesiynol parhaus os dyfarnodd yr awdurdod y dylai hwnnw fod yn bensiynadwy.

Fodd bynnag, ni fydd yn unrhyw daliadau a wneir gan gyflogwr i aelod sydd ar absenoldeb gwasanaeth lluoedd wrth gefn yn cael eu hystyried yn dâl pensiynadwy.

Er bod y gyfradd gyfraniadau (canran) ar gyfer diffoddwyr tân rheolaidd rhan-amser, diffoddwyr tân wrth gefn a diffoddwyr tân gwirfoddol yn cael ei phennu drwy gyfeirio at y tâl cyfwerth amser llawn, fel yr esbonnir ar dudalen 11, bydd y cyfraniadau a delir yn seiliedig a dâl gwirioneddol (rhan-amser) y diffoddwyr tân.

Weithiau bydd tâl diffoddwr tân yn lleihau neu'n cael ei atal am gyfnod. Gall hyn effeithio ar yr asesiad o'r buddion. Mae CPDTC 2015 yn esbonio pa bethau gaiff eu cyfrif fel "tâl pensiynadwy tybiedig" mewn amgylchiadau penodol, fel nad effeithir ar y buddion. Mae'r amgylchiadau hynny'n cynnwys absenoldeb salwch, absenoldeb anaf, absenoldeb cysylltiedig â phlentyn ac absenoldeb di-dâl. Mewn rhai o'r amgylchiadau, megis absenoldeb salwch ar dâl gostyngedig, cymhwysir y tâl pensiynadwy tybiedig yn awtomatig; mewn amgylchiadau eraill, e.e. absenoldeb salwch di-dâl, bydd cymhwyso'r tâl pensiynadwy tybiedig yn dibynnu ar i'r aelod wneud dewisiad i dalu, ac ar dalu, cyfraniadau am y cyfnod perthnasol.

Gall eich gweinyddwr pensiynau esbonio wrthych eich hawliau a'ch opsiynau mewn amgylchiadau o'r fath.

## SUT GAIFF FY MHENSIWN EI ASESU?

Pan fyddwch yn ymuno ag CPDTC 2015, bydd cyfrif pensiwn yn cael ei agor ar eich cyfer, a bydd yn parhau'n agored cyhyd ag y byddwch yn aelod sy'n cyfrannu i'r Cynllun. Gelwir y cyfrif hwn yn "gyfrif aelod actif".

Os ydych yn aelod actif mewn mwy nag un gyflogaeth yr un pryd, bydd gennych gyfrif aelod actif ar gyfer pob un o'r cyflogaethau.

Bydd eich pensiwn yn tyfu o flwyddyn i flwyddyn fel a ganlyn:

- 1/61.4 x tâl pensiynadwy = credyd pensiwn enilledig

Os cymerwn fod eich tâl pensiynadwy plws unrhyw dâl pensiynadwy tybiedig yn ystod eich blwyddyn gynllun gyntaf yn £29,850, byddai eich pensiwn enilledig am y flwyddyn honno yn

1/61.4 x £29,850.00 = £486.16

Gweithredir "addasiad mynegai" ar y swm hwn, sef cynnydd neu ostyngiad canran a bennir mewn Gorchymyn a ddyroddir gan Drysorlys EM, i adlewyrchu unrhyw newid cenedlaethol mewn enillion cyfartalog wythnosol. Gwneir yr addasiad er mwyn sicrhau, bob blwyddyn, fod y pensiwn sydd gennych yn eich cyfrif yn cadw ei werth o flwyddyn i flwyddyn.

Os buoch yn absennol yn ystod y flwyddyn gynllun, ar dâl contractiol gostyngedig neu heb ddim tâl oherwydd salwch neu anaf, neu ar absenoldeb perthnasol gyda thâl mewn cysylltiad â phlentyn, neu absenoldeb gwasanaeth lluoedd wrth gefn, yna, am y cyfnod hwnnw, bydd eich pensiwn yn seiliedig ar eich tâl pensiynadwy tybiedig.

Dangosir enghraifft isod, o'r modd y byddai eich pensiwn yn tyfu bob blwyddyn yn eich Cyfrif Pensiwn:

| O'r dyddiad | i'r dyddiad | Balans yn y cyfrif | Cyfradd gorchymyn Trysorlys EM[1] | Balans agoriadol | Gwir dâl | Cyfradd twf | Twf y pensiwn yn y flwyddyn | Balans yn y cyfrif (ar ddiwedd y flwyddyn) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 01/04/2015 | 31/03/2016 | 0.00 | | 0.00 | 29,850 | 1/61.4 | 486.16 | 486.16 |
| 01/04/2016 | 31/03/2017 | 486.16 | 3% | 500.74 | 30,447 | 1/61.4 | 500.72 | 1001.46 |
| 01/04/2017 | 31/03/2018 | 1001.46 | 4% | 1041.52 | 31,000 | 1/61.4 | 504.89 | 1546.41 |

Byddai eich cyfrif aelod actif yn parhau i dyfu yn y modd hwn cyhyd ag y byddech yn parhau'n aelod actif o'r Cynllun. Yn ogystal, pe baech yn parhau yn aelod actif o'r Cynllun y tu hwnt i oedran ymddeol arferol y Cynllun (sef 60 oed), byddai "ychwanegiad oedran", sef swm ychwanegol o bensiwn, a gyfrifid yn unol â chanllawiau actiwari'r Cynllun, yn cael ei gredydu i'ch cyfrif.

[1] Cyfraddau dychmygol yw'r rhain, at ddibenion enghreifftiol yn unig

Os byddwch yn peidio â bod yn aelod actif cyn eich bod yn gymwys i gael taliad o bensiwn ymddeol ar unwaith, bydd eich cyfrif aelod actif yn cael ei gau, a’ch pensiwn enilledig cronedig yn cael ei drosglwyddo i "gyfrif aelod gohiriedig".

## PA BRYD GAF I YMDDEOL AR BENSIWN?

Bydd hyn yn dibynnu ar eich oedran ac ar yr amgylchiadau pan fyddwch yn gadael y gwasanaeth tân ac achub. Yr oedran pensiwn arferol yw 60, ond os byddwch yn parhau yn aelod actif o'r Cynllun, gallwch barhau i grynhoi pensiwn (a byddech yn cael "ychwanegiad oedran" i adlewyrchu'r ffaith eich bod wedi gohirio cael eich pensiwn). Nid oes cyfyngiad ar swm y pensiwn y caniateir ei grynhoi drwy barhau yn y gwasanaeth.

Cewch ofyn am dalu eich pensiwn cyn 60 oed ar yr amod eich bod eisoes wedi cyrraedd 55 oed. Fodd bynnag, gellir lleihau'r pensiwn i adlewyrchu'r ffaith eich bod yn ymddeol yn gynnar.

Neu, mewn unrhyw oedran o dan 60, os digwydd ichi fynd yn analluog i gyflawni unrhyw un o ddyletswyddau eich rôl, gallech fod yn gymwys i gael dyfarniad afiechyd.

Edrychir ar bob un o ddarpariaethau ymddeol y Cynllun ar y tudalennau sy'n dilyn.

## YMDDEOL O WASANAETH ACTIF

### Oedran pensiwn arferol

Os ydych yn aelod actif mewn oedran pensiwn arferol (60) gallwch gymryd eich pensiwn unrhyw adeg ar neu ar ôl eich pen-blwydd yn 60. Wedyn, bydd eich cyfrif aelod actif ac unrhyw gyfrif pensiwn ychwanegol (gweler “Taliadau am bensiwn ychwanegol” ar dudalen 14) yn cael eu cau a chyfrif ymddeol yn cael ei sefydlu. Ni wneir unrhyw ostyngiad oherwydd talu'n gynnar, ac mae'n bosibl y rhoddir ychwanegiad oedran, os byddwch wedi parhau i wasanaethu ar ôl cyrraedd 60 oed.

### Ymddeoliad cynnar

Os ydych yn aelod actif, ond yn dymuno cael eich pensiwn cyn eich bod yn 60 oed, gallwch roi hysbysiad ysgrifenedig i'r awdurdod, i'w hysbysu yr hoffech gael eich pensiwn pan gyrhaeddwch 55 oed neu ar ôl hynny. Yn yr amgylchiadau hynny, fodd bynnag, byddai'r ymddeoliad cynnar yn achosi gostyngiad yn eich pensiwn, a seilid ar ffactorau a ddarperid gan actiwari'r Cynllun.

### Rhan-ymddeoliad

Mae opsiwn ar gael hefyd  ar gyfer "ymddeol yn rhannol", unwaith y byddwch wedi cyrraedd 55 oed, os byddwch yn dymuno cael eich pensiwn ond parhau eich cyflogaeth fel diffoddwr tân heb doriad a chrynhoi pensiwn ychwanegol. Byddai eich cyfrif aelod actif ac unrhyw gyfrif pensiwn ychwanegol yn cael eu cau, a'r pensiwn a ddelid yn y cyfrifon hynny yn cael ei dalu (yn ddarostyngedig i ostyngiad talu'n gynnar, os na fyddech wedi cyrraedd 60 oed). Byddai cyfrif aelod actif newydd yn cael ei agor, ar gyfer y pensiwn a fyddai'n crynhoi wrth ichi barhau eich aelodaeth. Byddai'r ail bensiwn hwnnw yn dod yn daladwy, ar delerau cyffelyb i'ch pensiwn cyntaf, bryd bynnag y byddech yn barod i'w gymryd.

## Ymddeoliad cynnar a ysgogir gan gyflogwr

Gellir talu pensiwn ymddeol i aelod actif, sy'n 55 oed neu'n hŷn ond heb gyrraedd 60 oed, heb unrhyw ostyngiad talu'n gynnar, mewn achos o "ymddeoliad a ysgogir gan gyflogwr". Mae hyn yn digwydd pan fo awdurdod yn terfynu cyflogaeth aelod, ac wedi penderfynu y dylid dyfarnu pensiwn ymddeol ar y sail y byddai hynny "yn gymorth i reoli swyddogaethau'r cyflogwr yn ddarbodus, yn effeithiol ac yn effeithlon", ar ôl ystyried y costau tebygol a dynnid yn yr achos penodol dan sylw. (Byddai cost yn parhau'n gysylltiedig â thalu'r pensiwn ymddeol cyn yr oedran pensiwn arferol, ond o dan yr amgylchiadau hyn, yr awdurdod fyddai'n sefyll y gost honno ac nid yr aelod o'r Cynllun.)

Ym mhob un o'r amgylchiadau hyn ar ddechrau cyfnod talu'r pensiwn ymddeol, cyn bo'r taliadau yn cychwyn, byddai gennych yr opsiwn o gymudo rhan o'r pensiwn i ddarparu cyfandaliad (gweler "Cymudo" ar dudalen 22).

## BUDDION AFIECHYD

Gellir ystyried diffoddwr tân, nad yw wedi cyrraedd yr oedran pensiwn arferol (60 oed) ac sy'n gadael oherwydd anabledd parhaol, ar gyfer pensiwn afiechyd. Os dyfernir pensiwn afiechyd, bydd cyfrif aelod actif ac unrhyw gyfrif pensiwn ychwanegol yr aelod yn cael eu cau, a chyfrif ymddeol yn cael ei agor.

Mae dwy haen o bensiwn afiechyd, sef yr haen isaf a'r haen uchaf. Mae lleiafswm o 3 mis o wasanaeth cymwys yn ofynnol ar gyfer pensiwn afiechyd haen isaf a lleiafswm o 5 mlynedd o wasanaeth cymwys ar gyfer pensiwn afiechyd haen uchaf. Y canlynol yw'r amodau meddygol y mae'n rhaid eu bodloni i fod yn gymwys am ddyfarniad afiechyd:

- ar gyfer pensiwn afiechyd haen isaf, rhaid i'r person fod yn analluog i gyflawni unrhyw un o swyddogaethau'r rôl y cyflogwyd yr aelod ynddi ddiwethaf, oherwydd anallu meddyliol neu gorfforol a fydd yn parhau nes cyrraedd oedran pensiwn arferol (sef 60 oed);

- ar gyfer pensiwn afiechyd haen uchaf, rhaid i'r person fod yn gymwys i gael pensiwn afiechyd haen isaf a hefyd, oherwydd anallu meddyliol neu gorfforol a fydd yn parhau nes cyrraedd oedran pensiwn arferol, fod yn analluog i ymgymryd â chyflogaeth reolaidd. Ystyr cyflogaeth reolaidd yw cyflogaeth am o leiaf 30 awr yr wythnos ar gyfartaledd am gyfnod o ddim llai na 12 mis yn olynol gan ddechrau gyda'r dyddiad pan fo mater galluogrwydd person i wneud gwaith cyflogedig yn codi.

### Penderfynu ar y dyfarniad

Yr ATA a fydd yn penderfynu a ellir talu pensiwn, ond cyn gwneud hynny, rhaid i'r ATA gael ac ystyried barn ysgrifenedig Ymarferydd Meddygol Cymwysedig Annibynnol ("YMCA").
O fewn14 diwrnod ar ôl gwneud penderfyniad ar ddyfarniad, rhaid i'r ATA roi hysbysiad ysgrifenedig o'r penderfyniad i'r person dan sylw, ynghyd â chopi o'r farn feddygol y seiliwyd y penderfyniad arni. (Os nad yw'n fodlon ar farn feddygol, yr adeg hon neu mewn unrhyw adolygiad dilynol, mae hawl gan y person i ofyn am ailystyried y farn honno, ac os yw'n parhau'n anfodlon, caiff apelio i Fwrdd Canolwyr Meddygol – gweler " Cymorth i Aelodau A Hawliau Apelio " ar dudalen 36).

Cyfrifir cyfradd flynyddol pensiwn afiechyd haen isaf yn yr un modd â phensiwn ymddeol ar sail oedran – hynny yw, fel cyfanswm y pensiwn enilledig ymddeol ac unrhyw bensiwn ychwanegol ymddeol. Pe baech yn dewis cymudo cyfran o'r pensiwn ar gyfer cyfandaliad neu ddyrannu cyfran ar gyfer dibynnydd, byddid yn gwneud gostyngiad priodol (gweler "CYMUDO" a "DYRANNU" ar dudalennau 22 a 26). Ond **ni** fyddid yn gwneud unrhyw ostyngiad oherwydd ymddeol yn gynnar.

**Cyfrifo pensiwn afiechyd haen uchaf**

Cyfrifir cyfradd flynyddol pensiwn afiechyd haen uchaf fel 2% o'r pensiwn enilledig ymddeol (cyn unrhyw ostyngiad ar gyfer cymudo) wedi ei luosi gyda "chyfnod tybiedig gwasanaeth pensiynadwy" yr aelod, sef y cyfnod sy'n dechrau gyda'r diwrnod ar ôl y diwrnod y mae'r aelod yn ymddeol ac yn diweddu gyda'r diwrnod cyn y diwrnod y mae'n cyrraedd yr oedran pensiwn arferol (sef 60). Ni chymerir i ystyriaeth unrhyw bensiwn ychwanegol ymddeol.

Er enghraifft, tybiwch:

- bod gennych bensiwn enilledig o £10,000 cyn cymudo, sef £8,000 ar ôl cymudo
- bod gennych bensiwn ychwanegol o £1,000 cyn cymudo, sef £800 ar ôl cymudo
- bod cyfnod o 20 mlynedd rhwng eich diwrnod olaf o wasanaeth a'r diwrnod y cyrhaeddwch 60 oed, ac
- nad ydych yn dewis dyrannu rhan o'r pensiynau i ddibynnydd.

Os byddech yn ymddeol gyda phensiwn afiechyd haen isaf, byddai hawl gennych i gael:

y pensiwn enilledig ar ôl cymudo + y pensiwn ychwanegol ar ôl cymudo

h.y. £8,000 + £800 = £8,800 y flwyddyn

Os byddech yn ymddeol gyda phensiwn afiechyd haen uchaf, byddai hawl gennych i gael:

2% x y pensiwn enilledig cyn cymudo x 20

h.y. 2% x £10,000 x 20 = £4,000 y flwyddyn

yn ychwanegol at eich pensiwn haen isaf o £8,800 y flwyddyn.

**Adolygu**

Pan ddyfernir pensiwn afiechyd, rhaid i'r ATA adolygu hawlogaeth y person i barhau i gael y dyfarniad, cyhyd ag y bydd y derbynnydd wedi bod yn cael y dyfarniad am lai na 10 mlynedd ac yntau o dan yr oedran pensiwn gohiriedig (sef oedran pensiwn y wladwriaeth, neu 65 os yw 65 yn uwch).

Ar gyfer cynnal yr adolygiad, byddai'r ATA yn gofyn eto am farn ysgrifenedig gan YMCA cyn penderfynu a ddylid parhau i dalu'r pensiwn afiechyd.

Os penderfynir bod person sy'n cael pensiwn afiechyd haen uchaf bellach yn alluog i ymgymryd â chyflogaeth reolaidd, byddai ei hawl i gael y pensiwn hwnnw yn peidio ar

unwaith. Ond byddid yn parhau i dalu pensiwn afiechyd haen isaf oni fyddai'n rhaid terfynu hwnnw hefyd.

Wrth benderfynu a ddylai hawlogaeth i bensiwn afiechyd haen isaf barhau, ystyrir a yw'r derbynnydd bellach wedi dod yn alluog i gyflawni dyletswyddau'r rôl yr ymddeolodd ohoni ar sail afiechyd. Os tybir nad yw wedi dod yn alluog i wneud hynny, bydd y pensiwn yn parhau i gael ei dalu.

Os tybir bod y person bellach yn alluog i gyflawni'r dyletswyddau hynny, rhaid i'r ATA ystyried nesaf a ddylid cynnig ailgyflogi'r person ai peidio, yn yr un rôl ag yr ymddeolodd ohoni. Yna—

- os na wneir cynnig, bydd y pensiwn afiechyd haen isaf yn parhau i gael ei dalu
- os gwneir cynnig, bydd y taliad o'r pensiwn afiechyd haen isaf yn peidio, hyd yn oed os nad yw'r person yn derbyn y cynnig i'w ailgyflogi.

Os yw'r person yn gwrthod y cynnig i'w ailgyflogi, byddai'r ATA yn creu cyfrif aelod gohiriedig ac yn credydu'r cyfrif hwnnw â swm sy'n hafal i'r pensiwn afiechyd haen isaf blynyddol yn union cyn iddo gael ei atal. Byddai'r pensiwn gohiriedig yn dod yn daladwy pan fyddai'r aelod yn cyrraedd yr oedran pensiwn gohiriedig (sef oedran pensiwn y wladwriaeth, neu 65 os yw 65 yn uwch).

## CYMUDO

Ar eich ymddeoliad, os dymunwch, gallwch ildio rhan o'ch hawlogaeth flynyddol i bensiwn, a chael un cyfandaliad yn ei le. Gelwir hyn yn "gymudo ".

Mae cyfyngiadau, fodd bynnag, ar y swm y caniateir ei gymudo. Rhaid i'r gyfran o'r pensiwn a gymudir beidio â bod yn fwy na 25%, ac ni chaiff y cyfandaliad fod yn uwch na therfynau treth penodol, rhag achosi taliad trethadwy o'r cynllun. Os cedwir o fewn y terfynau hyn, bydd y cyfandaliad a geir drwy gymudo yn rhydd o dreth. Pan fyddwch yn ymddeol, gall eich gweinyddwr pensiynau eich cynghori ynglŷn â'r terfynau a fydd mewn grym ar y pryd.

Yn ogystal, er y gellir cymudo pensiwn ymddeol, pensiwn gohiriedig neu bensiwn afiechyd haen isaf, ni ellir cymudo pensiwn afiechyd haen uchaf.

Os byddwch yn dymuno manteisio ar yr opsiwn hwn i ddarparu cyfandaliad, rhaid ichi hysbysu'r awdurdod mewn ysgrifen cyn bo'r taliad cyntaf o bensiwn wedi ei wneud, gan nodi'r swm o bensiwn y dymunwch ei gymudo. Cewch gymudo cyn lleied neu cyn gymaint o'r pensiwn ag y dymunwch, ar yr amod eich bod yn cadw o fewn y terfynau.

Wrth gymudo, am bob £1 y bydd eich cyfradd flynyddol o bensiwn yn gostwng, byddech yn cael £12 fel cyfandaliad.

Tybiwch, er enghraifft, fod hawl gennych i gael pensiwn ymddeol o £16,000 y flwyddyn ac eich bod yn dewis cymudo'r gyfran fwyaf a ganiateir, sef un chwarter, h.y. £4,000. Os rhagdybir bod y terfynau treth yn caniatáu hyn, cyfanswm eich buddion fyddai:

Pensiwn: £16,000.00 – £4,000.00 = £12,000.00 y flwyddyn

Cyfandaliad: £4,000.00 x 12 = £48,000.00

## BETH OS DEWISAF ADAEL Y GWASANAETH CYN YMDDEOL?

### Buddion gohiriedig

Os peidiwch â bod yn aelod actif o’r Cynllun cyn bod hawl gennych i gael taliad o fuddion ymddeol, a bod gennych o leiaf 3 mis o wasanaeth cymwys neu werth trosglwyddiad wedi ei dalu i mewn i’ch cyfrif pensiwn, byddwch yn dod yn aelod gohiriedig o’r Cynllun.

Byddai’ch cyfrif aelod actif yn cael ei gau a chyfrif aelod gohiriedig yn cael ei sefydlu. Byddai’r cyfrif hwnnw yn cynnwys gwerth eich cyfrif pensiwn ar y dyddiad gadael.

Pe baech yn dychwelyd i aelodaeth Gynllun o fewn y 5 mlynedd nesaf ar ôl gadel, byddai’r cyfrif aelod gohiriedig yn cael ei gau a’ch cyfrif aelod actif yn cael ei ailsefydlu, fel pe baech wedi parhau mewn gwasanaeth pensiynadwy yn ystod y toriad, ond heb gael unrhyw dâl pensiynadwy am y cyfnod hwnnw.

Os na fyddwch yn dychwelyd i fod yn aelod actif, bydd eich pensiwn yn aros yn y cyfrif aelod gohiriedig hyd nes byddwch yn gymwys i’w gael.

### Ymddeoliad o gyfrif pensiwn gohiriedig

Byddech yn dod yn gymwys i gael taliad o’ch pensiwn ar sail oedran pan gyrhaeddech yr oedran pensiwn gohiriedig, sef yr un oedran â’ch oedran pensiwn y wladwriaeth, neu 65 os yw 65 yn uwch. Pe bai gennych gyfrif pensiwn ychwanegol (gweler "Taliadau ar gyfer pensiwn ychwanegol" ar dudalen 14) eich pensiwn ymddeol fyddai cyfanswm gwerth eich cyfrif pensiwn gohiriedig plws a’ch pensiwn ychwanegol, plws y mynegeio.

### Ymddeoliad cynnar o gyfrif pensiwn gohiriedig

Pe baech yn dymuno, gallech roi hysbysiad ysgrifenedig i’r awdurdod, i’w hysbysu yr hoffech gael eich pensiwn gohiriedig yn 55 oed neu ar ôl hynny ond cyn eich oedran pensiwn gohiriedig. Mewn amgylchiadau o’r fath, fodd bynnag, byddai’r pensiwn yn ddarostyngedig i ostyngiad talu’n gynnar, ar sail ffactorau a ddarperid gan actiwari’r Cynllun.

### Ymddeoliad ar sail iechyd o gyfrif pensiwn gohiriedig

Neu os byddech, cyn cyrraedd oedran pensiwn gohiriedig, yn dioddef o afiechyd i’r graddau y byddech yn analluog i ymgymryd â chyflogaeth reolaidd, a byddai’r analluogrwydd hwnnw’n parhau tan o leiaf yr oedran pensiwn gohiriedig, gallech ofyn am dalu’r pensiwn gohiriedig yn gynnar ar sail afiechyd. Byddai’r penderfyniad ynghylch hawlogaeth yn cael ei wneud gan yr ATA ar ôl ystyried barn ysgrifenedig Ymarferydd Meddygol Cymwysedig Annibynnol.

Pe bai taliad cynnar yn cael ei wneud ar sail afiechyd, byddai’r ATA yn cadw eich hawlogaeth i’r taliad cynnar dan adolygiad hyd nes byddech yn cyrraedd yr oedran pensiwn gohiriedig. Os deuai’r ATA i’r casgliad eich bod bellach wedi dod yn alluog i ymgymryd â chyflogaeth reolaidd, byddai’r taliad o’r pensiwn yn peidio. Pe bai’r taliad o’r pensiwn yn parhau, ni fyddai adolygu pellach yn ofynnol ar ôl cyrraedd yr oedran pensiwn

gohiriedig; pe bai’r taliad yn cael ei atal yn dilyn adolygiad, byddai’r pensiwn yn cael ei adfer pan gyrhaeddid yr oedran pensiwn gohiriedig.

Gellir cymudo rhan o’r pensiwn i darparu cyfandaliad (gweler "Cymudo" uchod) neu ei ddyrannu i ddarparu pensiwn i ddibynnydd ar farwolaeth yr aelod.

## DYRANNU

Mae dyrannu yn opsiwn sy'n caniatáu ichi ildio rhan o'ch pensiwn ar eich ymddeoliad er mwyn darparu pensiwn, ar eich marwolaeth chi, i bartner sy'n goroesi neu i ddibynnydd arall. Mae'n hen ddarpariaeth sydd wedi ei throsglwyddo ymlaen i CPDTC 2015 o fersiynau cynharach o'r Cynllun, a oedd yn darparu symiau cyfyngedig iawn o fuddion i ddibynyddion.

Rhaid cyflwyno dewisiad i ddyrannu – a allai fod er budd mwy nag un buddiolwr – ddim hwyrach na'r dyddiad y daw'r buddion yn daladwy, ond ddim cynharach na 2 fis cyn hynny. Mae dyrannu'n ddarostyngedig i dystiolaeth feddygol o iechyd da a disgwyliad oes normal. Ceir dyrannu hyd at draean o gyfradd flynyddol y pensiwn, ond bydd y swm a ddarperir fel pensiwn dyranedig yn dibynnu ar oedran a rhyw y diffoddwr tân a'r enwebai.

Byddai'r pensiwn dyranedig yn cael ei dalu o ddyddiad marwolaeth y pensiynwr Cynllun, ond pe byddai farw'r enwebai cyn yr aelod, byddai'r gyfran o'r pensiwn a ddyrannwyd yn cael ei hadfer i'r aelod o ddyddiad marwolaeth yr enwebai.

Byddai'r enwebiad yn peidio â chael effaith pe bai'r enwebai yn peidio â bodloni rheolau cymhwystra. Yn ogystal, rhaid i'r enwebiad gydymffurfio â rheolau treth ar gyfer buddion marwolaeth.

Os oes diddordeb gennych yn yr opsiwn hwn, gall gweinyddwr pensiynau eich ATA ddarparu dyfynbris personol a gwybodaeth berthnasol ichi cyn bo'ch pensiwn yn dod yn daladwy.

## BUDDION MARWOLAETH

### Cyfandaliad o fuddion marwolaeth

Pe byddech farw tra'n gwasanaethu fel aelod actif o CPDTC 2015, byddai cyfandaliad o fudd marwolaeth yn daladwy, sef swm cyfwerth â thair gwaith eich tâl terfynol fel yr oedd ar ddyddiad eich marwolaeth. Y tâl terfynol arferol yw'r uchaf o'r canlynol—

(a) swm tâl pensiynadwy a thâl pensiynadwy tybiedig yr aelod yn ystod ei 365 diwrnod olaf o wasanaeth pensiynadwy di-dor, neu

(b) swm tâl pensiynadwy a thâl pensiynadwy tybiedig yr aelod yn ystod ei 3 blynedd olaf o wasanaeth pensiynadwy, wedi ei rannu gyda thri.

Os yw cyfnod o wasanaeth di-dor yn cynnwys 29 Chwefror, rhoddir "366" yn lle "365". Yn ogystal, gwneir darpariaeth i gyrraedd ffigur ar gyfer y tâl terfynol "ar sail blwyddyn" os yw'r cyfnod o wasanaeth pensiynadwy yn llai na 365 diwrnod.

Pe bai gennych fwy nag un cyfrif aelod actif, byddai cyfandaliad o fudd marwolaeth yn daladwy mewn perthynas â phob un o'r cyfrifon hynny.

**Cyfandaliad gwarant 5 mlynedd**

Pe byddech farw o fewn 5 mlynedd ar ôl y dyddiad y daeth eich pensiwn yn daladwy, byddai cyfandaliad o fudd marwolaeth yn daladwy, cyfwerth â'r gwahaniaeth rhwng pum gwaith y swm blynyddol o bensiwn a chyfanswm y rhandaliadau o bensiwn a dalwyd.

Os oeddech yn aelod actif ac yn aelod-bensiynwr ar ddyddiad y farwolaeth, swm y cyfandaliad o fudd marwolaeth a fyddai'n daladwy yw'r mwyaf o'r hyn a delid mewn perthynas â'r aelodaeth actif, neu mewn perthynas â'r aelodaeth pensiynwr.

**Talu'r cyfandaliad budd marwolaeth**

Caiff yr ATA, yn ôl ei ddisgresiwn absoliwt, dalu'r cyfandaliad budd marwolaeth i, neu er budd, enwebai'r aelod, ei gynrychiolwyr personol, neu unrhyw berson y mae'n ymddangos i'r rheolwr cynllun a fu'n berthynas neu'n ddibynnydd yr aelod o'r Cynllun.

## PENSIYNAU AR GYFER PARTNERIAID SY'N GOROESI

**Pensiwn profedigaeth**

Yn ystod y 13 wythnos cyntaf ar ôl marwolaeth aelod, gall "pensiwn profedigaeth" fod yn daladwy i bartner sy'n goroesi. Os oedd yr aelod—

- yn aelod actif ar ddyddiad y farwolaeth, swm wythnosol y pensiwn profedigaeth fyddai'r gwahaniaeth rhwng swm wythnosol y tâl pensiynadwy neu'r tâl pensiynadwy tybiedig yr oedd yr aelod yn ei gael ar ddyddiad y farwolaeth a swm wythnosol pensiwn y partner sy'n goroesi.

- yn aelod-bensiynwr ar ddyddiad y farwolaeth, swm wythnosol y pensiwn profedigaeth fyddai'r gwahaniaeth rhwng swm wythnosol y pensiwn yr oedd hawl gan yr aelod i'w gael ar ddyddiad y farwolaeth, a swm wythnosol pensiwn y partner sy'n goroesi.

- yn aelod gohiriedig ar ddyddiad y farwolaeth ac nad oedd y pensiwn wedi dod yn daladwy, ni fyddai pensiwn profedigaeth yn daladwy.

Os nad oes partner sy'n goroesi, bydd hawl gan blentyn cymwys i gael y pensiwn profedigaeth. Os oes mwy nag un plentyn cymwys, rhennid y pensiwn profedigaeth fel bod pob plentyn yn cael cyfran gyfartal. Yr un fyddai swm y pensiwn profedigaeth ag ar gyfer partner sy'n goroesi, yn unol â pha un ai aelod actif ynteu aelod-bensiynwr oedd yr ymadawedig. Os byddai un o'r plant yn peidio â bod yn gymwys yn ystod y 13 wythnos pan wneir taliadau, byddai'r pensiwn nyn cael ei ail-rannu yn gyfartal rhwng y plant cymwys a fyddai'n weddill.

Byddai pensiwn profedigaeth yn cael ei dalu hefyd i blentyn neu blant cymwys pe byddai farw partner sy'n goroesi, a oedd â hawl i gael y taliad, yn ystod y cyfnod talu o 13 wythnos. Byddai'r plentyn neu'r plant yn cael y pensiwn profedigaeth am y rhan o'r cyfnod a fyddai'n weddill.

**Pensiwn hirdymor partner sy'n goroesi**

Pan fydd farw aelod o'r Cynllun (boed hynny cyn neu ar ôl ymddeol), ar yr amod bod ganddo o leiaf 3 mis o wasanaeth cymwys, bydd pensiwn yn daladwy i bartner cymwys sy'n goroesi. Byddai cyfrif actif, cyfrif gohiriedig neu gyfrif ymddeol yr aelod o'r Cynllun yn cael ei gau, a chyfrif pensiwn yn cael ei sefydlu ar gyfer y partner sy'n goroesi.

Mae person yn "bartner sy'n goroesi" os yw—

- yn briod â'r aelod neu'n bartner sifil i'r aelod, neu
- yn cyd-fyw â'r aelod ac—
    - nad yw'n briod â'r aelod hwnnw nac yn bartner sifil iddo, nac i unrhyw berson arall, a
    - gallai ymuno mewn priodas neu bartneriaeth sifil â'r aelod o dan gyfraith Cymru a Lloegr ond nad yw wedi gwneud hynny, ac
    - yr awdurdod wedi penderfynu ei fod yn ddibynnol yn ariannol ar yr aelod neu mewn cyflwr o gyd-ddibyniaeth ariannol gilyddol â'r aelod, and
    - mewn perthynas hirdymor â'r aelod, h.y. perthynas sydd wedi parhau am gyfnod o ddwy flynedd o leiaf, sy'n diweddu ar y dyddiad y digwydd i fater statws y person mewn perthynas â'r aelod gael ei ystyried (neu gyfnod byrrach, yn ôl disgresiwn yr awdurdod).

Ar yr amod nad yw'r person sy'n goroesi ar ddyddiad y farwolaeth yn fwy na 12 mlynedd yn iau na'r aelod, pensiwn partner sy'n goroesi—

- yn dilyn marwolaeth aelod actif, fyddai hanner y pensiwn y byddai hawl gan yr aelod i'w gael ar ddyddiad y farwolaeth, pe bai wedi ymddeol ar sail afiechyd gyda phensiwn afiechyd haen uchaf.
- yn dilyn marwolaeth aelod gohiriedig, fyddai hanner swm y pensiwn yng nghyfrif gohiriedig yr aelod plws hanner unrhyw bensiwn yng nghyfrif pensiwn ychwanegol yr aelod (gweler "Taliadau am bensiwn ychwanegol" ar dudalen 14).
- yn dilyn marwolaeth aelod-bensiynwr, fyddai hanner y gyfradd pensiwn a oedd yn daladwy i'r aelod yn union cyn y farwolaeth (sef y pensiwn ar ôl unrhyw gymudo neu ddyrannu, ond cyn unrhyw ostyngiad a wnaed oherwydd ymddeol yn gynnar).

Os yw'r partner sy'n goroesi ar ddyddiad y farwolaeth, yn fwy na 12 mlynedd yn iau, gwneir gostyngiad yn y pensiwn sy'n daladwy, o hyd at 50% o'r pensiwn.

Mae pensiwn partner sy'n goroesi yn daladwy am oes. Ni fydd yn peidio o ganlynid i briodi neu ailbriodi, nac o ganlyniad i ymuno mewn partneriaeth newydd.

Yn ychwanegol at y pensiwn partner sy'n goroesi, gallai "pensiwn profedigaeth" fod yn daladwy hefyd – gweler tudalen 27.

## PENSIYNAU AR GYFER PLANT CYMWYS

Pan fydd farw aelod o’r Cynllun (boed cyn neu ar ôl ymddeol), ar yr amod bod ganddo o leiaf 3 mis o wasanaeth cymwys, bydd pensiwn yn daladwy i blentyn cymwys. The Byddai cyfrif actif, cyfrif gohiriedig neu gyfrif ymddeol yr aelod o’r Cynllun yn cael ei gau, a chyfrif pensiwn yn cael ei sefydlu ar gyfer y plentyn.

Ystyr "plentyn" mewn perthynas ag aelod ymadawedig yw—

(a) plentyn naturiol, llysblentyn neu blentyn mabwysiedig yr aelod; neu

(b) plentyn naturiol, llysblentyn neu blentyn mabwysiedig i briod neu i bartner sifil yr aelod, neu i bartner a oedd yn cyd-fyw â’r aelod; neu

(c) unrhyw blentyn naturiol yr aelod, a anwyd ar ôl marwolaeth yr aelod, ac yr oedd mam y plentyn yn feichiog â’r plentyn hwnnw ar ddyddiad marwolaeth yr aelod.

Mae’r plentyn yn “blentyn cymwys"—

- os oedd yn ddibynnol yn ariannol ar yr aelod ymadawedig ar ddyddiad marwolaeth yr aelod hwnnw (neu yn achos (c) uchod, byddai wedi bod yn ddibynnol felly pe bai wedi ei eni cyn y farwolaeth);
- os nad yw’n briod neu mewn partneriaeth sifil; ac
- os yw’r awdurdod yn penderfynu bod y plentyn yn bodloni unrhyw un o’r amodau canlynol—

- ei fod o dan 18 oed, neu
    - ei fod mewn addysg amser llawn neu ar gwrs sy’n parhau am o leiaf un flwyddyn, ac nad yw’r person wedi cyrraedd 23 mlwydd oed, neu
    - ei fod yn ddibynnol ar yr aelod oherwydd anallu meddyliol neu gorfforol parhaol, ar ddyddiad marwolaeth yr aelod.

Yn dilyn marwolaeth—

**aelod actif**, byddai gan blentyn neu blant cymwys hawlogaeth i chwarter y pensiwn, y byddai hawl gan yr aelod i’w gael ar ddyddiad y farwolaeth, pe bai wedi ymddeol ar sail afiechyd gyda phensiwn afiechyd haen uchaf.

**aelod gohiriedig**, byddai gan blentyn neu blant cymwys hawlogaeth i chwarter swm y pensiwn yng nghyfrif gohiriedig yr aelod plws hanner unrhyw bensiwn yng nghyfrif pensiwn ychwanegol yr aelod (gweler "Taliadau am bensiwn ychwanegol" ar dudalen 14).

**aelod-bensiynwr**, byddai gan blentyn neu blant cymwys hawlogaeth i chwarter y gyfradd pensiwn a oedd yn daladwy i’r aelod yn union cyn y farwolaeth (sef y pensiwn ar ôl unrhyw gymudo neu ddyrannu, ond cyn unrhyw ostyngiad a wnaed oherwydd ymddeol yn gynnar).

- os oes mwy nag un plentyn cymwys, y gyfran yw hanner unrhyw un o’r tri phensiwn a grybwyllir uchod, wedi ei rannu’n gyfartal rhwng y plant; os digwydd i un o’r plant beidio â bod yn “blentyn cymwys” byddai’r hanner pensiwn yn cael ei ailddosrannu rhwng y plant eraill.

**Effaith ysgaru ar bensiynau plant**

Os oedd buddion yr aelod, ar ddyddiad y farwolaeth, wedi eu lleihau oherwydd gorchymyn rhannu pensiwn (gweler " Ysgaru neu Ddiddymu Partneriaeth Sifil " ar dudalen 31) byddai’r gyfran benodedig yn seiliedig ar bensiwn yr aelod fel pe bai’r lleihad heb ei wneud.

**Dim partner cymwys**

Gall ddigwydd weithiau fod yna blentyn neu blant cymwys, ond neb sydd â hawlogaeth i bensiwn partner sy’n goroesi. Mewn amgylchiadau o’r fath, telir y pensiwn, a fyddai wedi ei dalu i’r partner sy’n goroesi (gweler " Pensiynau ar gyfer Partneriaid sy’n Goroesi " ar dudalen 27), ei dalu i’r plentyn cymwys, neu dosrennir ef rhwng y plant cymwys, a hynny yn ychwanegol at eu pensiwn plentyn cymwys.

## TROSGLWYDDO HAWLIAU PENSIWN ALLAN O’R CYNLLUN

Os byddwch yn gadael eich cyflogaeth, gallwch ofyn am i’ch hawliau pensiwn gael eu cynnig i drefniant pensiwn arall, ar ffurf “gwerth trosglwyddo”. Cyfrifir y gwerth trosglwyddo drwy gyfrifo gwerth y buddion gohiriedig ac yna ei addasu yn unol â ffactorau actiwaraidd. Yr hyn ydyw, mewn gwirionedd, yw gwerth eich hawliau pensiwn wedi ei fynegi ar ffurf cyfandaliad. Dylech gymharu’r cynnig o fuddion y byddai’r gwerth trosglwyddo yn ei brynu yn y cynllun newydd, gyferbyn ag unrhyw fuddion cyfatebol yn CPDTC 2015, cyn gwneud eich penderfyniad ynghylch trosglwyddo hawliau pensiwn.

**Trosglwyddiadau rhwng Gwasanaethau**

Mae’r egwyddorion uchod yn gymwys hefyd mewn perthynas â throsglwyddo hawliau pensiwn i ATAau yn Lloegr, yr Alban neu Ogledd Iwerddon. Fodd bynnag, os byddwch yn gadael eich cyflogaeth gydag un ATA yng Nghymru er mwyn trosglwyddo i ATA Cymreig arall, lle y byddwch yn parhau’n aelod o CPDTC 2015, bydd y trefniadau trosglwyddo yn wahanol. Ni fydd taliad trosglwyddo yn cael ei wneud. Bydd eich awdurdod blaenorol yn ddarparu tystysgrif i chi, sy’n datgan y cofnodion yn eich cyfrifon pensiwn a ddelir gan yr awdurdod hwnnw, ynghyd â manylion eich cyfnod o gyflogaeth bensiynadwy. Bydd hyn yn cael ei wneud yn awtomatig os na fu toriad rhwng eich cyflogaethau. Os bu toriad yn eich gwasanaeth pensiynadwy, a’r toriad yn ddim hwy na 5 mlynedd, byddai’r dystysgrif yn cael ei darparu ar ôl cael cais gennych chi. Rhaid i chi, wedyn, roi’r dystysgrif i’ch awdurdod newydd, fel y gall drosglwyddo’r manylion i’ch cyfrif pensiwn newydd gyda’r awdurdod hwnnw.

Byddai angen gwneud trefniadau arbennig pe bai gennych fwy nag un gyflogaeth gyda’r naill awdurdod neu’r llall neu’r ddau; mae’n bosibl y byddai’n rhaid ichi ddewis o ba gyfrif, neu i ba gyfrif, y dylid trosglwyddo’r manylion. Gall eich awdurdod newydd esbonio hyn wrthych.

Os yw’r toriad mewn gwasanaeth pensiynadwy yn 5 mlynedd neu’n hwy, byddech yn cadw eich cyfrif pensiwn gohiriedig gyda’ch awdurdod blaenorol – ni fyddai’n bosibl gwneud trosglwyddiad i gyfrif actif newydd. Ond os oedd gennych gyfrif pensiwn ychwanegol, gallai fod yn bosibl trosglwyddo’r cofnodion o’r cyfrif hwnnw i’ch cyflogaeth newydd.

Dylech wirio’r manylion yn y dystysgrif a roddir ichi gan eich awdurdod blaenorol. Os credwch fod y manylion yn anghywir, mae gennych hawl i herio’u cywirdeb; ar ôl gwneud hynny, os byddwch yn parhau’n anfodlon, bydd hawl gennych i apelio o dan y Gweithdrefnau Datrys Anghydfod Mewnol (gweler "Hawliau apelio" ar dudalen 36).

## YSGARU NEU DDIDDYMU PARTNERIAETH SIFIL: YR EFFAITH AR HAWLIAU PENSIWN

Mewn achos o ysgaru, diddymu partneriaeth sifil, dirymu priodas neu ymwahanu barnwrol, gall llys orchymyn bod cynllun pensiwn yn talu’r cyfan neu ran o hawlogaeth pensiwn aelod i’w gyn-briod neu i’w bartner sifil. Gellid gwneud hyn yn unol â gorchymyn atafaelu (y cyfeirir ato weithiau fel gorchymyn “clustnodi”) neu o dan delerau gorchymyn “rhannu pensiwn”.

Os gofynnir iddo, gall gweinyddwr pensiynau’r ATA ddarparu gwybodaeth am bensiynau ar gyfer yr achos llys.

Gallai gorchymyn clustnodi ymwneud â’r cyfan neu ran o’ch pensiwn ymddeol, eich cyfandaliad posibl ac efallai eich cyfandaliad budd marwolaeth. Os byddech eisoes wedi ymddeol, gallai’r gorchymyn wneud yn ofynnol talu pensiwn ar unwaith i’ch cyn-briod neu i’ch cyn-bartner sifil. Os byddech yn aelod actif neu’n aelod gohiriedig, ni fyddai’r gorchymyn yn cael effaith hyd nes deuai’r buddion yn daladwy.

Byddai gorchymyn rhannu pensiwn yn cael effaith ar unwaith. Yn unol â chyfarwyddyd y llys, byddai canran o werth eich buddion yn cael ei didynnu a’i throsglwyddo i gyfrif credyd pensiwn a sefydlid gan yr awdurdod ar gyfer eich cyn-briod neu’ch cyn-bartner sifil (a fydd wedyn yn dod yn “aelod â chredyd pensiwn" o CPDTC 2015).

### Aelod â Chredyd Pensiwn

Mae hawl gan aelod â chredyd pensiwn i gael taliad o’i bensiwn pan yw’n cyrraedd yr oedran pensiwn gohiriedig, sef oedran pensiwn y wladwriaeth neu 65, os yw 65 yn uwch. Os yw’r aelod â chredyd pensiwn, ar y dyddiad y mae’r gorchymyn rhannu pensiwn yn cael effaith, eisoes wedi cyrraedd yr oedran pensiwn gohiriedig, byddai’n cael taliad o’i hawlogaeth pensiwn ar unwaith. Mae hawl ganddo i gymudo rhan o’r pensiwn am gyfandaliad ar delerau tebyg i’r rhai sy’n gymwys i chi (gweler "Cymudo" ar dudalen 22) ar yr amod nad oeddech chi eisoes wedi ymddeol ac wedi cymudo rhan o’ch pensiwn cyn i’r gorchymyn rhannu pensiwn gael effaith.

Pe byddai farw’r aelod â chredyd pensiwn cyn bo unrhyw fuddion sy’n deillio o’r credyd pensiwn wedi eu talu iddo, byddai cyfandaliad budd marwolaeth yn daladwy, sef 2.25 gwaith y pensiwn credyd pensiwn. Neu, pe byddai farw o fewn 5 mlynedd ar ôl dechrau talu’r pensiwn credyd pensiwn, ac yntau o dan 75 oed, telid grant marwolaeth a fyddai’n

hafal i'r gwahaniaeth rhwng 5 gwaith y pensiwn a chyfanswm y rhandaliadau a dalwyd eisoes. Nid oes unrhyw bensiynau i oroeswyr yn gysylltiedig â chredyd pensiwn.

Yn dilyn ysgariad neu ddiddymu partneriaeth sifil, bydd eich cyn-briod neu'ch cyn-bartner yn peidio â chael diogelwch budd marwolaeth mewn perthynas â'r gyfran o'r pensiwn y byddwch chi yn ei chadw ar ôl gweithredu'r gorchymyn rhannu pensiwn.

Pe byddech, ar adeg eich marwolaeth, wedi ymuno mewn perthynas newydd ac yn gadael partner cymwys sy'n goroesi, byddai hawl gan y partner newydd i gael pensiwn partner sy'n goroesi ar sail y gyfran o'r pensiwn a gadwyd gennych ar ôl y gostyngiad rhannu pensiwn.

Fodd bynnag, byddai pensiwn plentyn cymwys yn cael ei gyfrifo ar sail y pensiwn y byddai hawl wedi bod gennych i'w gael, pe na bai unrhyw ostyngiad wedi ei wneud ar gyfer rhannu pensiwn.

## CYNYDDU PENSIYNAU

Mae'r buddion a delir o dan CPDTC 2015 yn cael eu cynyddu yn unol â'r Deddfau a Gorchmynion Pensiynau (Cynnydd). Bydd unrhyw gynnydd dyladwy yn cael ei dalu ar unwaith yn achos pensiynau afiechyd a phensiynau ar gyfer partneriaid sy'n goroesi ac ar gyfer plant cymwys. Fel arall, bydd y cynnydd yn dod yn daladwy i rai sy'n 55 oed neu'n hŷn, pan ddechreuir talu'r pensiwn y mae'r cynnydd yn gysylltiedig ag ef. Yn achos buddion gohiriedig, mae'r cynnydd yn cronni o'r diwrnod ar ôl y dyddiad y gadewir CPDTC 2015 ac yn cael ei dalu pan delir y pensiwn gohiriedig.

## TALU BUDDION

Telir pensiynau, fel arfer, mewn ôl-daliadau misol gan yr ATA.

Telir cyfandaliadau cymudo gan yr ATA cyn gynted ag y bo modd ar ôl iddynt ddod yn ddyledus.

### Talu pensiynau o aelodaeth actif

Os bydd y pensiwn yn daladwy yn yr oedran pensiwn arferol, bydd rhaid i'r aelod actif wneud hawliad am daliad o'r pensiwn; os ceir yr hawliad cyn diwedd y gyflogaeth, bydd y taliad yn dechrau ar y diwrnod ar ôl diwedd y gyflogaeth. Os na cheir yr hawliad tan ar ôl diwedd y gyflogaeth, bydd y pensiwn yn cael ei dalu o ddyddiad ar ôl dyddiad yr hawliad – hysbysir yr aelod o'r dyddiad hwnnw gan yr ATA.

Pan fo hawl gan aelod actif i gael pensiwn ymddeol oherwydd ymddeoliad a ysgogwyd gan y cyflogwr, bydd y pensiwn yn daladwy o'r diwrnod ar ôl y dyddiad y daw'r gyflogaeth Gynllun i ben

Pan fo aelod actif wedi dewis yr opsiwn o ran-ymddeoliad, mae'r pensiwn yn daladwy o'r diwrnod ar ôl y dyddiad yr arferwyd yr opsiwn o ran-ymddeoliad.

Y cyfnod cyntaf y mae pensiwn afiechyd yn daladwy ar ei gyfer yw'r diwrnod ar ôl y dyddiad y terfynir cyflogaeth Gynllun yr aelod.

**Talu pensiwn gohiriedig**

Bydd pensiwn gohiriedig yn cael ei dalu o'r oedran pensiwn gohiriedig, ar yr amod bod yr aelod wedi hawlio taliad. Ar gais yr aelod, gellir gohirio talu yn hwy – hyd at 75 oed– neu gellir ei dalu yn gynharach, yn 55 oed neu'n hŷn, ond gyda gostyngiad talu'n gynnar. Os gwneir cais am dalu pensiwn gohiriedig yn gynnar ar sail afiechyd, ac os yw'r awdurdod wedi cytuno y gellir gwneud taliad yn yr amgylchiadau hynny, bydd yn cychwyn o'r dyddiad y bydd yr aelod gohiriedig wedi bodloni'r gofynion ar gyfer talu ar sail afiechyd. Os na ellir canfod pa ddyddiad oedd hwnnw, bydd y taliad yn cychwyn o ddyddiad y cais a wnaed gan yr aelod.

**Talu pensiynau goroeswyr**

Bydd pensiynau ar gyfer partneriaid sy'n goroesi a phlant cymwys yn cael eu talu o'r diwrnod ar ôl dyddiad marwolaeth yr aelod. Yn achos plentyn cymwys a enir ar ôl marwolaeth yr aelod, bydd y taliad yn dechrau o ddyddiad genedigaeth y plentyn.

Yn achos plentyn o dan 18 oed, bydd yr awdurdod yn penderfynu i bwy y dylid gwneud y taliadau, ond bydd rhaid defnyddio'r pensiwn er budd y plentyn yn unol â chyfarwyddiadau'r awdurdod. Ar ôl dyfarnu'r pensiynau a'u dosrannu rhwng plant cymwys, os daw'r awdurdod i wybod am blentyn ychwanegol sydd â hawlogaeth ddilys (gallai hyn gynnwys plentyn a enir ar ôl marwolaeth yr aelod), caiff yr awdurdod wneud ôl-addasiadau yn y pensiynau. (Mae hawl gan yr awdurdod i adennill taliadau neu ordaliadau, mewn amgylchiadau pan ystyrir bod hynny'n briodol).

**Anallu meddyliol**

Os yw'n ymddangos bod person, ac eithrio plentyn cymwys, yn analluog i reoli ei fusnes ei hunan, er enghraifft oherwydd anallu meddyliol, gellir talu'r pensiwn i rywun sy'n gofalu am y person, neu i rywun a fydd yn defnyddio'r pensiwn er budd y person hwnnw. Neu caiff yr awdurdod benderfynu ar ryw ffordd arall o ddefnyddio'r buddion er bydd y person dan sylw

**Enwebu i gael budd marwolaeth**

Gallwch enwebu rhywun y dymunwch iddo gael y cyfandaliad budd marwolaeth, ond mae disgresiwn absoliwt gan yr awdurdod ynglŷn â'r derbynnydd/derbynyddion, gan gynnwys cynrychiolwyr personol a enwir mewn Grant Profiant neu Lythyr Gweinyddu.

**Talu pensiynau bach**

Os pensiwn bach yn unig sy'n daladwy, a'r pensiwn hwnnw islaw terfynau a bennir gan Gyllid a Thollau EM, yna, ar yr amod y bodlonir gofynion penodol eraill y rheolau treth and (megis oedran y pensiynwr) caiff yr awdurdod gymudo'r pensiwn hwnnw yn gyfandaliad. Neu gall yr ATA benderfynu estyn y ysbeidiau rhwng rhandaliadau o bensiwn bach, o gymharu â'r ysbeidiau rhwng taliadau o bensiynau arferol.

## EFFAITH RHEOLAU TRETH

Rhaid i CPDTC 2015 gydymffurfio â rheolau a bennir gan Gyllid a Thollau EM. Mae terfynau, er enghraifft, ar faint y pensiwn a chyfandaliad y caiff aelod o gynllun pensiwn eu cymryd cyn bo treth yn daladwy.

Y ddau brif gyfyngiad ar eich buddion yw’r “lwfans blynyddol” a’r "lwfans oes".

Rhaid cymharu’r twf yng ngwerth eich pensiwn bob blwyddyn (ar sail "cyfnod mewnbwn pensiwn" – gweler " Esboniad o’r Termau ac Ymadroddion " ar dudalen 40) gyferbyn â therfyn blynyddol a bennir gan Drysorlys EM. pe bai’r gwerth yn fwy na’r terfyn, byddai treth yn ddyledus ac yn daladwy drwy hunanasesiad. Neu gallech wneud dewisiad er mwyn i’r awdurdod wneud y taliad ar eich rhan allan o’ch hawlogaeth buddion (cyfeirir at hyn fel y dull “cynllun yn talu”).

Pan ddaw’r buddion yn ddyledus, bydd rhaid profi cyfanswm eu gwerth gyferbyn â’r lwfans oes, sydd hefyd y cael ei bennu yn flynyddol. Pe byddai eu gwerth yn fwy na’r terfyn, byddai treth yn cael ei didynnu gan yr awdurdod a’i thalu i Gyllid a Thollau EM.

Wrth brofi cyfanswm gwerth y buddion rhaid cynnwys yr holl fuddion pensiwn y byddwch wedi eu cronni, gan gynnwys unrhyw fuddion o drefniadau eraill, ar wahân i CPDTC 2015. O ganlyniad, bydd yr awdurdod yn gofyn ichi ddarparu datganiadau mewn perthynas â’r holl drefniadau pensiwn eraill a fydd gennych, fel y gall wirio cyfanswm gwerth y buddion cyn gwneud taliad allan o’r Cynllun. Gall yr ATA roi rhagor o fanylion ichi am y modd y mae’r rheolau treth yn gweithio, y dull o brisio’r buddion, y terfynau cyfredol a’r dreth a godir.

## LLEIHAU PENSIWN NEU DYNNU PENSIWN YN ÔL

Gellir lleihau buddion yn unol â gorchymyn “clustnodi” neu orchymyn rhannu pensiwn a ddyroddir yn dilyn ysgariad, diddymu partneriaeth sifil, dirymu priodas neu ymwahaniad barnwrol – gweler tudalen 31.

Yn ogystal, mewn rhai amgylchiadau, gellir lleihau budd sy’n daladwy o dan CPDTC 2015 neu ei dynnu’n ôl, o dan reolau fforffedu neu “wrthgyfrif”.

Caiff ATA dynnu’r cyfan neu ran o bensiwn yn ôl, yn barhaol neu dros dro, os yw’r person a fyddai fel arall yn gymwys i gael y pensiwn wedi ei gollfarnu o’r drosedd o frad, neu drosedd o dan Ddeddfau Cyfrinachau Swyddogol 1911 to 1989, neu drosedd a gyflawnwyd mewn cysylltiad â'i gyflogaeth Gynllun yr ardystiodd Gweinidogion Cymru ei bod wedi peri niwed difrifol i fuddiannau’r Wladwriaeth, neu’n debygol o arwain at golled ddifrifol o hyder yn y gwasanaeth cyhoeddus.

Ni fyddid yn talu pensiwn i ddibynnydd a gollfarnwyd am lofruddio diffoddwr tân, os byddai pensiwn y dibynnydd hwnnw, fel arall, wedi tarddu o hawliau pensiwn y diffoddwr tân a lofruddiwyd; mewn achos o ddynladdiad, mae disgresiwn gan yr ATA i atal y cyfan neu ran o’r pensiwn.

Gellir fforffedu a/neu "wrthgyfrif" buddion os oes gan aelod o’r Cynllun "rwymedigaeth ariannol berthnasol" i’r cyflogwr, neu os yw wedi peri "colled ariannol berthnasol " i CPDTC 2015 mewn amgylchiadau sy’n tarddu o weithred neu anwaith droseddol, esgeulus neu dwyllodrus gan yr aelod – a hynny, mewn rhai achosion, yn gysylltiedig â’i gyflogaeth Gynllun. Ond pe bai anghydfod yn codi rhwng yr aelod a’r ATA ynghylch y rhwymedigaeth neu’r golled, ni chaniateid tynnu’r buddion yn ôl heb orchymyn llys neu ddyfarniad tebyg ar ôl cymrodeddu.

Mae pŵer gan awdurdod i wneud yn ofynnol bod person, a allai fod â hawlogaeth i gael budd o dan y Cynllun, yn darparu tystiolaeth i ategu ei hawlogaeth. Gallai methiant i wneud hynny beri bod buddion yn cael eu cadw’n ôl.

## CYMORTH I AELODAU, A HAWLIAU APELIO

Pan fo aelod o CPDTC 2015, neu ddibynnydd, yn anfodlon ar benderfyniad a wnaed gan ATA (neu ar fethiant ATA i wneud penderfyniad) bydd hawliau apelio ar gael iddo. Mae gweithdrefn apelio ar gael i rywun sy'n anfodlon ar benderfyniad a wnaed ar sail barn feddygol, os yw'n credu mai'r farn feddygol oedd ar fai. Ac ar gyfer anghydfodau eraill, rhaid i'r awdurdod fod wedi sefydlu trefniadau ar gyfer Gweithdrefn Datrys Anghydfod Mewnol ("GDAM") sy'n seiliedig ar ofynion Deddf Pensiynau 1995.

### Apelau meddygol

Pan fo awdurdod yn ystyried a ddylai wneud dyfarniad o bensiwn afiechyd i ddiffoddwr tân ai peidio (neu ganiatáu talu pensiwn gohiriedig yn gynnar ar sail afiechyd ai peidio), rhaid iddo yn gyntaf gael barn ysgrifenedig gan ymarferydd meddygol cymwysedig annibynnol ("YMCA") ynglŷn ag a yw'r person yn analluog yn barhaol ai peidio i gyflawni dyletswyddau ei rôl, ac os ydyw, a fyddai'n alluog ai peidio i ymgymryd ag unrhyw gyflogaeth reolaidd arall. Rhaid i'r awdurdod hysbysu'r diffoddwr tân o'i benderfyniad ynglŷn â dyfarnu'r pensiwn, a chyflenwi copi o'r farn feddygol y seiliwyd y penderfyniad arni.

Os yw'r person yn anfodlon ar y dyfarniad ac y tybio mai'r farn feddygol sy'n anghywir, caiff apelio i Fwrdd Canolwyr Meddygol yn erbyn y farn honno. (Cyn cyrraedd y cam hwnnw, fodd bynnag, os darperir tystiolaeth newydd o natur feddygol gan yr aelod, ac os yw'r aelod a'r awdurdod yn cytuno, gellir gofyn i'r YMCA adolygu'r farn feddygol yng ngoleuni'r dystiolaeth newydd.)

Mae proses gyffelyb yn gymwys pan gaiff dyfarniad afiechyd ei adolygu a'r person dan sylw yn anfodlon ar y canlyniad– gweler "Buddion afiechyd" ar dudalen 20 – ac mewn unrhyw amgylchiadau eraill pan fo penderfyniad wedi ei wneud ar sail feddygol.

### Gweithdrefnau Datrys Anghydfod Mewnol (GDAM)

Os yr hyn sy'n tramgwyddo aelod, dibynnydd neu aelod â chredyd pensiwn o CPDT 2015 yw penderfyniad a wnaed gan yr ATA nad yw'n ymwneud â chynnwys unrhyw farn feddygol, gall y person a dramgwyddwyd ddefnyddio GDAM i geisio datrys yr anghydfod. Bydd yr awdurdod yn ystyried yr anghydfod ac yn cyflwyno ymateb ysgrifenedig.

Gallwch gael manylion llawn am y gweithdrefnau apêl meddygol a'r GDAM lleol ynghyd â'r terfynau amser perthnasol gan eich ATA.

### Y Gwasanaeth Cynghori ar Bensiynau ("TPAS")

Corff gwirfoddol annibynnol yw TPAS, sy'n darparu gwybodaeth a chanllawiau ar faterion pensiwn. Maent ar gael ar unrhyw adeg i gynorthwyo aelodau a buddiolwyr cynlluniau pensiwn galwedigaethol mewn perthynas ag unrhyw ymholiad ynghylch pensiynau neu unrhyw anhawster y methwyd ei ddatrys gyda gweinyddwyr y cynllun pensiwn. Mae'r gwasanaeth r gael yn ddi-dâl

Nid oes pŵer gan TPAS i orfodi gweithredu ynghylch pensiynau, ond os tybia y byddai'n briodol, gall argymell bod person yn cyflwyno'i achos gerbron yr Ombwdsmon Pensiynau. Gellir cysylltu â TPAS yn –

The Pensions Advisory Service,

11, Belgrave Road, London, SW1V 1RB
Llinell gymorth : 0300 123 1047 Gwefan: www.pensionsadvisoryservice.org.uk

**Yr Ombwdsmon Pensiynau**

Gall yr Ombwdsmon Pensiynau ymchwilio i gŵyn gan aelod o gynllun pensiwn ynghylch gamweinyddu neu anghydfod ynghylch mater o ffaith neu gyfraith rhwng aelod o gynllun a rheolwr cynllun pensiwn neu gyflogwr. Fodd bynnag, ni all yr Ombwdsmon gynorthwyo os oes achos cyfreithiol wedi ei gychwyn ynglŷn â'r anghydfod, neu os oes apêl wedi ei gwneud i'r Bwrdd Canolwyr Meddygol o dan reolau CPDTC 2015.

Bydd yr Ombwdsmon yn disgwyl y bydd yr achos wedi ei ystyried yn gyntaf yn unol â'r Gweithdrefnau Datrys Anghydfod Mewnol. Fel arfer hefyd, gofynnir i unrhyw achwynydd a fydd yn ysgrifennu yn uniongyrchol at yr Ombwdsmon ofyn yn gyntaf i'r Gwasanaeth Cynghori ar Bensiynau ymdrin â'r mater (gweler tudalen 36).

Gellir cysylltu â'r Ombwdsmon Pensiynau yn—

The Office of the Pensions Ombudsman,
11 Belgrave Road, London, SW1V 1RB
Teleffon: 020 7630 2200 Gwefan: www.pensions-ombudsman.org.uk

**Y Rheoleiddiwr Pensiynau**

Corff rheoleiddio a ddaeth i fodolaeth ar 6 Ebrill 2005 yw'r Rheoleiddiwr Pensiynau. Sefydlwyd ef o dan Ddeddf Pensiynau 2004, (i gymryd lle'r corff blaenorol, sef yr Awdurdod Rheoleiddiol Pensiynau Galwedigaethol). Mae'n sicrhau bod buddiannau aelodau o gynlluniau pensiwn yn cael eu diogelu a bod cynlluniau yn cydymffurfio â'r gyfraith.

Er enghraifft, mae Deddf Pensiynau'r Gwasanaethau Cyhoeddus 2013 yn cynnwys gofynion o ran llywodraethu a gweinyddu cynlluniau pensiwn y gwasanethau cyhoeddus (gan gynnwys CPDTC 2015), ac o ran goruchwylio gan y Rheoleiddiwr Pensiynau. Rhaid i ATAau gydymffurfio â Chod Ymarfer Rhif 14 y Rheoleiddiwr Pensiynau, sy'n pennu fframwaith ar gyfer llywodraethu a gweinyddu.

Ar y lefel ganolog yng Nghymru mae Bwrdd Cynghori Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân wedi ei sefydlu ers 1 Ebrill 2015; ac yn lleol, mae gan bob ATA, fel Rheolwr Cynllun, Fwrdd Pensiynau Lleol sy'n gyfrifol am gynorthwyo'r ATA i gydymffurfio â rheoliadau'r Cynllun a deddfwriaeth arall sy'n ymwneud â llywodraethu'r Cynllun.

Rhaid i fwrdd pensiynau lleol gynnwys niferoedd cyfartal o gynrychiolwyr cyflogwyr a chynrychiolwyr aelodau, lleiafswm o 4, sef 2 o bob ochr. Rhaid iddynt fod yn gyfarwydd â rheolau'r Cynllun a'r gyfraith ynglŷn â phensiynau. Nid oes pŵer gan fwrdd lleol i wneud penderfyniadau, ond gall adolygu penderfyniadau a wnaed o dan reolau'r Cynllun.

Mae'r Rheoleiddiwr Pensiynau yn ymdrin â materion sy'n ymwneud â chynlluniau pensiwn fel cyfangorff. Ni fydd yn ymwneud ag ymholiadau ynghylch buddion pensiwn unigolyn, ond gall argymell y dylai person geisio gwybodaeth a chyngor yn ddi-dâl, ynghylch pob math o bensiynau, gan y Gwasanaeth Cynghori ar Bensiynau (gweler tudalen 36).
Gwefan: www.thepensionsregulator.gov.uk

**Gwasanaeth olrhain pensiynau**

Os oes gennych hawliau pensiwn blaenorol a ddelir mewn trefniant pensiwn, ac rydych wedi colli cysylltiad â'r gweinyddwyr, mae'r Adran Gwaith a Phensiynau yn cynnig Gwasanaeth olrhain pensiynau. Gellir cysylltu â'r gwasanaeth yn–

The Pension Service 9, Mail Handling Site A, Wolverhampton WV98 1LU
Teleffon: 0845 6002 537 Gwefan:www.gov.uk/find-lost-pension

## Y GYDBERTHYNAS Â CHYNLLUN PENSIWN Y WLADWRIAETH

Mae'ch hawlogaeth i gael Pensiwn Sylfaenol y Wladwriaeth yn crynhoi yn gyfan gwbl ar wahân i'ch buddion o dan CPDTC 2015, ond mae cydberthynas rhwng y ddau gynllun oherwydd bod CPDTC 2015 ar hyn o bryd yn gynllun pensiwn sydd wedi "contractio allan".

Daeth Cynllun Pensiwn y Wladwriaeth ar sail Enillion ("SERPS") yn weithredol ar 6 Ebrill 1978. Roedd yn darparu elfen 'ail haen' yn ychwanegol at Bensiwn Sylfaenol y Wladwriaeth. Caniateid i gynlluniau pensiwn galwedigaethol, a oedd yn cynnig buddion cystal o leiaf â SERPS, "gontractio allan". Mae aelodau o gynllun a gontractiwyd allan yn talu cyfradd is na'r gyfradd arferol o Yswiriant Gwladol. Yr enw a roddir ar yr elfen warantedig o'r buddion yw'r "Lleiafswm Pensiwn Gwarantedig " neu "LlPG". Hysbysir gweinyddwr y Cynllun o'r LlPG ar gyfer aelod o'r Cynllun gan Swyddfa Cyfraniadau Yswiriant Gwladol Cyllid a Thollau EM. Rhaid i weinyddwr y Cynllun wedyn sicrhau bod y pensiwn Cynllun a delir i'r aelod, neu i'w briod neu i'w bartner sifil, yn cyrraedd y lefel warantedig. Un o nodweddion eraill contractio allan yw fod y Wladwriaeth, ar ôl oedran pensiwn y Wladwriaeth, yn ymgymryd â chyfrifoldeb llawn neu rannol am dalu'r Cynnydd Pensiynau ar y gyfran honno o'r pensiwn galwedigaethol sy'n gyfwerth â'r LlPG.

O 6 Ebrill 1997 ymlaen, newidiwyd y telerau y gallai cynlluniau pensiwn gontractio allan oddi tanynt. O'r dyddiad hwnnw ymlaen, nid oedd raid i gynllun pensiwn a gontractid allan wneud mwy na gwarantu y byddai o leiaf 90% o'i aelodau yn cael buddion cystal neu well na'r buddion a bennid mewn prawf system gyfeirio a ddiffiniwyd gan yr Adran Gwaith a Phensiynau. Bellach, ni roddid gwarantiad ar sail unigol.

Nid yw LlPGau yn gymwys i fuddion sydd wedi cronni ar ac ar ôl 6 Ebrill 1997. Daeth CPDTC 2015 yn weithredol ar 1 Ebrill 2015; ac felly, yr unig aelodau a fydd â hawlogaeth LlPG fydd y rhai a drosglwyddodd hawliau pensiwn i mewn i CPDTC 2015 o gynllun pensiwn a gontractiwyd allan yr oeddent yn aelod ohono cyn 6 Ebrill 1997.

Disodlwyd SERPS gan Ail Bensiwn y Wladwriaeth (a elwir hefyd "S2P") ar 6 Ebrill 2002. Mae S2P yn parhau mewn grym. Megis SERPS, mae'n darparu ail haen o fuddion ymddeol y Wladwriaeth yn ychwanegol at Bensiwn Sylfaenol y Wladwriaeth. Mae CPDTC 2015 wedi contractio allan o S2P. O ganlyniad, ni fyddwch yn cyfrannu i S2P tra byddwch yn aelod o CPDTC 2015.

Fel y gwelir o'r amlinelliad byr iawn a roddir uchod, gall rheolau Cynllun Pensiwn y Wladwriaeth fod yn dra chymhleth, a byddant yn amrywio o berson i berson. Disgwylir newidiadau pellach yn 2016.

Gallwch ofyn am ragolwg o'ch Pensiwn Ymddeol y Wladwriaeth gan y Tîm Rhagolygu Pensiwn y Wladwriaeth yn yr Adran Gwaith a Phensiynau. Gellir cysylltu â'r Tîm yn :

Future Pension Centre, Department for Work and Pensions,
Tyneview Park, Whitely Road, Newcastle upon Tyne, NE98 1BA

Teleffon: 0845 3000 168

Mae'r wefan ganlynol yn rhoi mwy o wybodaeth am Gynllun Pensiwn y Wladwriaeth:
www.gov.uk/browse/working/state-pension

## ESBONIAD O'R TERMAU AC YMADRODDION

| | |
|---|---|
| absenoldeb gwasanaeth lluoedd wrth gefn | Absenoldeb o ddyletswydd oherwydd galwad allan neu adalwad i wasanaethu'n barhaol yn y lluoedd arfog neu absenoldeb yn ystod hyfforddiant perthnasol. |
| absenoldeb cysylltiedig â phlentyn | Yn y canllaw hwn, gall olygu absenoldeb mamolaeth, tadolaeth, mabwysiadu, absenoldeb rhiant neu absenoldeb rhiant a rennir. |
| actiwari'r Cynllun | Yr actiwari a benodwyd gan Weinidogion Cymru |
| aelod â chredyd pensiwn | Gweler yr esboniad yn "Ysgaru Neu Ddiddymu Partneriaeth Sifil" ar dudalen 31. |
| aelod actif | Diffoddwr tân sy'n gwasanaethu ac yn aelod o Gynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) 2015, hynny yw, nad yw wedi optio allan nac ymddeol (yn llawn nac yn rhannol ) ar bensiwn. |
| aelod gohiriedig | Aelod actif blaenorol sy'n gadael y Cynllun cyn dod yn gymwys i gael taliad o bensiwn ymddeol ar unwaith – gweler yr esboniad ar dudalen 24. |
| aelod trosiannol | Cyn-aelod o CPDT 1992 neu CPNDT 2007 a drosglwyddwyd yn orfodol i CPDTC 2015. |
| awdurdod | Awdurdod tân ac achub ar gyfer ardal yng Nghymru, y penderfynwyd arno yn unol ag adran 1 o Ddeddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004. Mae Rheoliadau Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) 2015 yn cyfeirio at yr awdurdod sy'n gyfrifol am hawlogaeth pensiwn person o dan y Cynllun fel "rheolwr cynllun". |
| barn/ tystysgrif feddygol | Tystysgrif sy'n cynnwys barn ysgrifenedig ymarferydd meddygol cymwysedig annibynnol. |
| blwyddyn gynllun | Cyfnod o un flwyddyn sy'n dechrau ar 1 Ebrill ac yn diweddu ar 31 Mawrth. |
| buddion afiechyd | Gweler yr esboniad ar dudalen 20. |

| | |
|---|---|
| contractio allan | Gweler “Y Gydberthynas â Chynllun Pensiwn Y Wladwriaeth” ar dudalen 39. |
| CPDT1992 | Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân 1992, h.y. y cynllun pensiwn a bennir yng Ngorchymyn Cynllun Pensiwn y Dynion Tân 1992. |
| CPDTC 2015 | Cynllun Pensiwn Diffoddwyr Tân Cymru 2015, h.y. y cynllun pensiwn a bennir yn Rheoliadau Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) 2015. |
| CPNDT 2007 | Cynllun Pensiwn Newydd y Diffoddwyr Tân (Cymru) 2007, h.y. y cynllun pensiwn a bennir yng Ngorchymyn Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) 2007. |
| cyfandaliad budd marwolaeth | Cyfandaliad sy’n daladwy ar farwolaeth diffoddwr tân sy’n gwasanaethu neu bensiynwr, neu aelod â chredyd pensiwn o CPDTC 2015 mewn rhai amgylchiadau – gweler tudalen 26. |
| cyflogaeth reolaidd | Ystyr cyflogaeth reolaidd, wrth brofi hawl person i gael dyfarniad afiechyd, yw cyflogaeth am o leiaf 30 awr yr wythnos ar gyfartaledd dros gyfnod o ddim llai na 12 mis yn olynol, sy’n dechrau gyda’r dyddiad y cododd y mater o alluogrwydd y person i ymgymryd â chyflogaeth. |
| cyfnod mewnbwn pensiwn | Hwn yw’r cyfnod o 12 mis a ddefnyddir i benderfynu’r twf mewn pensiwn bob blwyddyn, fel sy’n ofynnol gan Gyllid a Thollau EM. Mae awdurdodau tân ac achub yn pennu bod pob cyfnod mewnbwn pensiwn i ddiweddu ar 31 Mawrth. |
| cyfrif aelod actif | Gweler yr esboniad ar dudalen 17 |
| cyfrif pensiwn ychwanegol | Gweler yr esboniad ar dudalen 14. |
| cymudo | Trosi rhan o bensiwn blynyddol yn gyfandaliad fel yr esbonnir yn “Cymudo” ar dudalen 22, neu drosi’r cyfan o bensiwn bach yn gyfandaliad – gweler "Talu buddion" ar dudalen 32. |
| Cynllun | Ystyr “Cynllun yn y canllaw hwn yw Cynllun Pensiwn Diffoddwyr Tân (Cymru) 2015. |
| dyrannu / dyraniad | Gweler yr esboniad ar dudalen 26. |

| | |
|---|---|
| gwasanaeth cymwys | Hwn yw'r gwasanaeth a ddefnyddir i benderfynu a yw person yn gymwys i gael buddion, (fel rheol, mae o leiaf 3 mis o wasanaeth cymwys yn ofynnol). Mae'n cynnwys unrhyw wasanaeth pensiynadwy o dan y Cynllun, y cyfnod o wasanaeth pensiynadwy o dan gynllun galwedigaethol arall os yw'r hawliau pensiwn o dan y cynllun hwnnw wedi eu trosglwyddo, ac, yn achos "aelodau trosiannol" sydd â pharhad gwasanaeth, gwasanaeth pensiynadwy o dan CPDT 1992 a/neu wasanaeth cymwys o dan CPNDT 2007. |
| gwasanaeth pensiynadwy | Gwasanaeth fel aelod o gynllun pensiwn. |
| Gweithdrefnau Datrys Anghydfod Mewnol | Gweler "Hawliau Apelio" ar dudalen 36. |
| oedran pensiwn arferol | Yr oedran, pe bai person yn ymddeol ar ôl ei gyrraedd, y byddai buddion pensiwn yn daladwy ar unwaith heb unrhyw ostyngiad o ganlyniad i ymddeol yn gynnar – yr oedran hwn yw 60 yn CPDTC 2015. |
| oedran pensiwn gohiriedig | Oedran pensiwn y Wladwriaeth y person dan sylw, neu 65 os yw 65 yn uwch. |
| oedran pensiwn y Wladwriaeth | Mae hwn ar hyn o bryd yn agored i newid. Ceir yr wybodaeth ddiweddaraf yn www.gov.uk/calculate-state-pension |
| partner sifil | Y person y mae diffoddwr tân wedi ffurfio partneriaeth sifil ag ef |
| partner sy'n cyd-fyw | Gweler yr esboniad o "bartner sy'n goroesi" yn "Pensiynau at gyfer partneriaid sy'n goroesi" ar dudalen 27. |
| pensiwn ychwanegol | Gweler yr esboniad ar dudalen 14. |
| priod | Person y mae diffoddwr tân yn briod ag ef yn gyfreithlon. |
| plentyn a phlentyn cymwys | Gweler y diffiniadau yn " Pensiynau ar gyfer plant cymwys " ar dudalen 29. |

| | |
|---|---|
| rôl | Y rôl y cyflogir diffoddwr tân ynddi ar y pryd, sef rôl a nodir yn "*Fire and Rescue Services Rolemaps*" a ddyroddwyd gan Gyd-gyngor Cenedlaethol Gwasanaethau Tân ac Achub yr Awdurdodau Lleol yn Awst 2005. |
| rhan-ymddeoliad | Dewisiad i gymryd pensiwn yn 55 oed neu'n hŷn, ond parhau mewn gwasanaeth pensiynadwy. |
| tâl pensiynadwy | Gweler yr esboniad ar dudalen 15. |
| tâl pensiynadwy tybiedig | Gweler yr esboniad ar dudalen 15. |
| tâl terfynol | Gweler yr esboniad yn "Cyfandaliad o Fuddion marwolaeth" ar dudalen 26. |
| ymddeoliad cynnar a ysgogir gan gyflogwr | Gweler yr esboniad yn "Pensiwn ymddeol" ar dudalen 19. |

## CRYNODEB O DDARPARIAETHAU CPDT 2015

| | |
|---|---|
| Aelodaeth: | Mae'n agored i ddiffoddwyr tân a ddechreuodd eu cyflogaeth ar neu ar ôl 1 Ebrill 2015 ac y mae eu rôl yn cynnwys datrys digwyddiadau gweithredol neu arwain a chefnogi eraill i ddatrys digwyddiadau, ac i ddiffoddwyr tân sy'n aelodau trosiannol. |
| Y gyfradd gyfraniadau sylfaenol | yw'r ganran o'ch tâl pensiynadwy a bennir yn unol â'r bandiau tâl a ddangosir yn y Tabl ar dudalen 11. Ar gyfer y cyfnod 1.4.2015 i 31.3.2016, mae'r cyfraddau cyfraniadau yn amrywio o 10.0% i 14.5%. |
| Taliadau ar gyfer pensiwn ychwanegol: | Caiff aelod wneud y rhain ar ffurf taliadau cyfnodol neu gyfandaliad, er mwyn cynyddu pensiwn a buddion marwolaeth yr aelod. |
| Hawliau pensiwn blaenorol: | Yn ddarostyngedig i amodau penodol, gellir eu trosglwyddo er mwyn cynyddu'r pensiwn CPDTC 2015 |
| Yr oedran pensiwn arferol | yw 60 oed, yr oedran pan gaiff aelod gymryd pensiwn ymddeol heb ostyngiad o ganlyniad i ymddeol yn gynnar. Fodd bynnag gallai aelod ddewis cymryd y pensiwn yn 55 oed neu'n hŷn, ond cyn cyrraedd 60 oed, ond byddai'r pensiwn wedyn yn cael ei leihau oherwydd ymddeol yn gynnar. Yn achos "ymddeoliad a ysgogir gan gyflogwr" e.e. pan fo'r ATA yn cynnig ymddeoliad cynnar i aelod sy'n 55 oed neu'n hŷn, ond o dan 60, ni fyddai'r gostyngiad yn gymwys oherwydd ymddeol yn gynnar – yr ATA a fyddai'n sefyll cost yr ymddeoliad cynnar.<br><br>(Os yw aelod yn dewis peidio â chymryd ei bensiwn tan ar ôl yr oedran pensiwn arferol, mae'n bosibl y cynhwysir ychwanegiad oedran pan ddaw'n amser i gymryd y pensiwn.) |
| Egwyddor sylfaenol asesu pensiynau | yw "enillion ailbrisiedig cyfartaledd gyrfa". Ar ddiwedd y flwyddyn gynllun gyntaf (1 Ebrill i 31 Mawrth) rhoddir cyfran o dâl pensiynadwy aelod actif ac unrhyw dâl pensiynadwy tybiedig ar gyfer y flwyddyn honno mewn cyfrif pensiwn. Y gyfran yw:<br><br>(1/61.4 x tâl pensiynadwy) plws 1/61.4 x (tâl pensiynadwy tybiedig)<br><br>Ar ddechrau'r ail flwyddyn gynllun, ailbrisir y pensiwn cronedig o'r flwyddyn gyntaf yn unol â mynegai a ddarperir gan y Trysorlys, sy'n seiliedig ar newidiadau mewn enillion wythnosol cyfartalog, i ddarparu'r balans agoriadol ar gyfer yr ail flwyddyn honno<br><br>Ar ddiwedd yr ail flwyddyn ychwanegir cyfran o'r tâl pensiynadwy ac |

| | |
|---|---|
| | unrhyw dâl tybiedig at y balans agoriadol, gan ddefnyddio’r fformiwla uchod.<br><br>Ar ddechrau’r drydedd flwyddyn, mae’r pensiwn a gronnwyd yn yr ail flwyddyn plws balans agoriadol y flwyddyn honno, yn cael eu hailbrisio yn unol â mynegai’r Trysorlys. Canlyniad hynny fydd balans agoriadol y drydedd flwyddyn.<br><br>Parheir y broses hon fesul blwyddyn tra bo’r person yn aelod actif o’r Cynllun. Bydd y pensiwn terfynol yn adlewyrchu ei enillion dros gyfnod cyfan ei aelodaeth plws yr ailbrisio blynyddol. |
| Pensiwn gohiriedig | yw’r pensiwn y byddai hawl gan berson i’w gael pe bai’n gadael y Cynllun pan nad yw’n gymwys i gael taliad o’i bensiwn ar sail oedran, nac ychwaith yn gymwys i gael dyfarniad. Byddai’r cyfrif aelod actif yn cael ei gau, a’r pensiwn cronedig yn cae ei drosglwyddo i gyfrif aelod gohiriedig. Byddai’n cael ei dalu pan gyrhaeddid yr oedran pensiwn gohiriedig, sef oedran pensiwn y Wladwriaeth yr aelod neu 65 os yw 65 yn fwy. Mae’n bosibl y câi ei dalu yn gynharach na hyn, pe bai afiechyd ardystiedig yn atal y person rhag ymgymryd â chyflogaeth reolaidd. |

| | |
|---|---|
| Dyfarniad afiechyd: | Gellir ei dalu i berson, beth bynnag fo'i oedran, sy'n gadael oherwydd anabledd parhaol, yn ddarostyngedig i benderfyniad ar y dyfarniad gan yr awdurdod, a fyddai'n seiliedig ar farn ymarferydd meddygol cymwysedig annibynnol.<br><br>Byddai pensiwn afiechyd haen isaf yn cael ei dalu pe bai'r person yn analluog i gyflawni unrhyw un o swyddogaethau'r rôl y cyflogwyd yr aelod ynddi ddiwethaf, oherwydd anallu meddyliol neu gorfforol a fyddai'n parhau tan yr oedran pensiwn arferol ( sef 60). Byddai pensiwn afiechyd haen uchaf yn cael ei dalu yn ychwanegol, os byddai'r person yn analluog, tan yr oedran pensiwn arferol, i ymgymryd â chyflogaeth reolaidd, oherwydd anallu meddyliol neu gorfforol.<br><br>Byddai hawlogaeth i ddyfarniad afiechyd yn parhau dan adolygiad gan yr awdurdod, cyhyd ag y bo'r derbynnydd wedi bod yn cael y dyfarniad am lai na 10 mlynedd ac yn parhau o dan yr oedran pensiwn gohiriedig (sef oedran pensiwn y Wladwriaeth neu 65 os yw 65 yn uwch). |
| Cymudo: | Mae'n caniatáu i ddiffoddwr tân aberthu rhan o'i bensiwn blynyddol er mwyn cael un cyfandaliad. Am bob £1 o bensiwn a gymudid, byddai'n cael cyfandaliad o £12. Ni chaiff y gyfran o'r pensiwn a gymudir fod yn fwy na 25%, nac yn fwy na'r terfynau treth perthnasol. |
| Buddion marwolaeth: | Darperir budd marwolaeth ar ffurf cyfandaliad o dair gwaith y tâl terfynol, os bydd aelod farw tra'n gwasanaethu; neu 5 mlynedd o bensiwn gwarantedig os yw'r diffoddwr tân wedi ymddeol a phensiwn yn cael ei dalu (h.y. telir 5 gwaith y pensiwn blynyddol, llai unrhyw randaliadau a dalwyd eisoes). Darperir pensiynau i bartneriaid sy'n goroesi ac i blant cymwys. |
| Effaith ysgaru neu ddiddymu partneriaeth sifil: | Mae'n dibynnu ar benderfyniad y llys. Os yw'r llys yn rhoi gorchymyn "clustnodi", gall orchymyn y ceir talu'r cyfan neu ran o'r grant marwolaeth, pensiwn, neu gyfandaliad drwy gymudo, i'r cyn-briod neu'r cyn-bartner sifil, ar yr adeg y byddai'r buddion hynny yn cael eu talu fel arfer i'r aelod, neu mewn perthynas â'r aelod o CPDTC 2015. Ond os yw'r llys, yn hytrach, yn gwneud gorchymyn rhannu pensiwn, bydd rhan o werth cronedig hawliau pensiwn y diffoddwr tân, ar y dyddiad y daw'r gorchymyn i rym, yn cael eu didynnu i ddarparu buddion i gyn-briod neu gyn-bartner sifil, a fyddai wedyn yn dod yn "aelod â chredyd pensiwn" yn CPDT 2015. |
| Buddion aelod â chredyd pensiwn: | Darperir y rhain i gyn-briod neu i gyn-bartner sifil aelod o CPDT 2015, pan fo llys wedi dyroddi gorchymyn rhannu pensiwn, yn dilyn ysgariad neu ddiddymu'r bartneriaeth sifil. Mae'r buddion yn daladwy o'r oedran pensiwn gohiriedig (sef oedran pensiwn y Wladwriaeth neu 65 os yw 65 yn uwch), neu o ddyddiad yr ysgariad/diddymiad os yw'n ddiweddarach. Byddai'r aelod â chredyd pensiwn yn cael pensiwn |

| | |
|---|---|
| | ynghyd â’r opsiwn o gyfandaliad drwy gymudo, ar yr amod nad yw’r diffoddwr tân eisoes wedi cymudo rhan o’i bensiwn. Byddai grant marwolaeth o 2.25 gwaith y pensiwn blynyddol yn cael ei dalu pe byddai farw’r aelod â chredyd pensiwn cyn i’w bensiwn ddod yn daladwy. Mae gwarant o 5 mlynedd pan fo’r pensiwn eisoes yn cael ei dalu, h.y. 5 gwaith y pensiwn blynyddol, llai unrhyw randaliadau a dalwyd eisoes. |
| Cynnydd pensiynau | yw’r codiad “costau byw” a wneir ym mhensiynau aelodau a dibynyddion, yn flynyddol fel arfer, yn unol â’r Deddfau a Gorchmynion Pensiynau (Cynnydd). |
| Hawliau apelio: | Gellir eu defnyddio gan bersonau sy’n anfodlon ar benderfyniadau’r ATA, neu ar farn feddygol y seilir rhai penderfyniadau arni. |

## SUT I GAEL RHAGOR O WYBODAETH

Os oes arnoch angen—

- rhagor o wybodaeth am unrhyw rai o ddarpariaethau Cynlluniau Pensiwn y Diffoddwyr Tân, neu
- ffurflenni ar gyfer unrhyw rai o'r opsiynau, neu
- datganiad o'ch buddion ymddeol neu werth trosglwyddo,

cysylltwch â:

**Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru**
Parc Busnes Fforest View
Llantrisant
Pont y- clun
CF72 8LX
**Ffôn**: 01443 232000
**Ebost**: gtdc@decymru-tan.gov.uk

**Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru**
Pencadlys Gwasanaeth
Heol Llwyn Pisgwydd
Caerfyrddin
Sir Gâr
SA31 1SP
**Ffôn**: 03706 060699
**Ebost**: post@tancgc.gov.uk

**Gwasanaeth Tân ac Achub, Gogledd Cymru**
Ffordd Salesbury
Parc Busnes Llanelwy
Llanelwy
Sir Ddinbych
LL17 0JJ
**Ffôn**: 01745 535250
**Ebost**: julie.brown@nwales-fireservice.org.uk

COFIWCH OS GWELWCH YN DDA: Er y gall yr ATA a'i gweinyddwyr pensiynau roi manylion ichi am eich hawlogaeth a'ch opsiynau o dan Gynlluniau Pensiwn y Diffoddwyr Tân, ni chaniateir iddynt eich cynghori i gymryd unrhyw gamau penodol pan fydd rhaid gwneud dewis. Os byddwch yn ansicr pa gamau i'w cymryd, cynghorir chi i ofyn am gymorth gan gynghorydd ariannol annibynnol sydd â chymwysterau priodol (gall rhai cynghorwyr godi tâl am y gwasanaeth hwn).